

CANU GWERIN

(FOLK SONG)

22 - 1999



CYMDEITHAS
ALAWON GWERIN
CYMRU

THE WELSH
FOLK-SONG
SOCIETY


Dyblygion



178221



9933PA1284



Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Journal of the Welsh Folk-Song Society

Portread o gymwynaswraig: Frances Môn Jones 3

Robin Gwyndaf

Bardd y Nant 11

Dafydd Glyn Jones

John Thomas's fiddle manuscript 43

Phyllis Kinney

Rhagor am ganu i'r ychen 52

Huw Walters

Golwg ar 'hen alaw' 60

Huw Williams

Aria di camera: rhai sylwadau 63

Huw Williams

Elfed Lewys (1934-99) 66D. Roy Saer

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygyddion na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editors or the Society.

Golygyddion: Rhidian Griffiths, Rhiannon Ifans

Cysodi: Gair am Air, Porthmadog

Argraffu: Argraffdy Arfon

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £6.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £8.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £2.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan,
Ffordd Bryn-y-Môr, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 2HX
 (01970) 610160

Llun y clawr: Frances Môn Jones
Llun gan Ronald Thompson, Dinbych, 1953

PORTREAD O GYMWYNASWRAIG: FRANCES MÔN JONES

Robin Gwyndaf

Hyfrydwch arbennig i mi yw cael y cyfle hwn i dalu teyrnged i gymwynaswraig nodedig iawn: Frances Môn Jones. Mwyfwy'r hyfrydwch oherwydd fy mod yn cael gwneud hynny ar dudalennau cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, y gymdeithas sydd mor annwyl yn ei golwg, a'r gymdeithas hefyd y rhoes hi ei gwasanaeth iddi gyda'r fath ymroddiad am gymaint o flynyddoedd.

Ganed Frances Môn Jones ym Mrychdyn (Pentref Broughton), ger Wrecsam. Ganed ei mam, Mary Jane Goodwin, yn Southsea, ger Wrecsam. Aeth i Ysgol Tan-y-fron, ac er ei bod hi a'i rhieni yn siarad Cymraeg, fe'i gorfodid yno i siarad Saesneg yn unig. Yr oedd tad Frances, David Charles Davies (a weithiai mewn swyddfa bost), yn ddi-Gymraeg. Hanai ei deulu ef o gylch Wrecsam, ac roedd ei dad, David Davies (a fu'n rheolwr ar bwl glo ym Moss), yn ŵr amlwg gydag enwad y Wesleaid ac yn bregethwr lleigg.

Saesnes oedd nain Frances, mam ei thad. A Saesneg oedd iaith yr aelwyd yng nghartref Frances. Saesneg hefyd oedd yr iaith yn yr ysgol gynradd, Ysgol Park Lane, Brychdyn, lle bu'n ddisgybl. Oddi yno aeth i Ysgol Ramadeg Grove Park, Wrecsam, a chael un wers Gymraeg yr wythnos yn unig. Rhwydd, felly, y gallai fod wedi colli'r iaith yn llwyr. Yn ferch ifanc, fodd bynnag, ymegniodd i feistroli'r iaith, a threuliodd weddill ei hoes yn cyflwyno eraill i'r Gymraeg a'r etifeddiaeth deg y bu hi mor ffodus â'i darganfod. Gwnaeth hynny yn eithriadol o lwyddiannus, nid yn gymaint drwy sôn am iaith a diwylliant, ond drwy fod yn llysgennad mor ardderchog ei hunan, gan ennyn serch plant ac ieuenctid yn yr union feysydd yr oedd hi ei hun yn ymddiddori mor frwd ynddynt.

Cofiwn eiriau Waldo:

Beth yw byw? Cael neuadd fawr
Rhwng cyfyng furiau.

Meddai Frances Môn Jones hithau wrthyf mewn sgwrs, 10 Hydref 1996: ‘cael y plant i *fwynhau*’r delyn a chanu, dyna sy’n bwysig’. Gall ugeiniau lawer o ieuencid mewn ardaloedd digon Seisnigedig ym Maldwyn heddiw dystio eu bod yn siarad Cymraeg ac yn mwynhau’r ‘pethe’ Cymraeg, megis eisteddfod a thwmpath, oherwydd eu hoffter neilltuol o’u hathrawes ac oherwydd iddi hi drwy delyn ac alaw a gwers garedig mewn canu a dawnsio agor drws iddynt i ‘neuadd fawr’ diwylliant Cymraeg, a honno’n llawn amrywiaeth a lliw.

Teulu, Athro a Thelyn

Yn 1947 priododd â’r Parchedig Robert Môn Jones, genedigol o Aberffraw, Ynys Môn, a rhoes ef bob cefnogaeth iddi i ddilyn ei diddordebau cerddorol. Bu hithau yn gefn cyson i’w waith yntau fel Gweinidog gyda’r Wesleaid hyd flwyddyn ei farw yn 1982. O 1947-50 bu’n Weinidog ar Gylchdaith Brymbo; 1950-55: Cylchdaith Dinbych; 1955-60: Cylchdaith Abergele; 1960-65: Cylchdaith Llanrhacadr-ym-Mochnant; 1965-76: Cylchdaith Llanfair Caereinion. Yn 1976 symudwyd o’r Mans yno i Goed y Garth Lwyd, rhyw ddwy filltir o’r pentref.

Y mae Frances Môn Jones yn fawr ei dyled hefyd i’w rhieni am bob anogaeth a chefnogaeth. Er bod ei thad yn ddi-Gymraeg âi yntau, fel ei briod, i gapel Cymraeg Pîsgah, Brychdyn. Yn bedair ar ddeg oed dechreuodd Frances ganu’r organ yn y capel. Flwyddyn cyn hynny, gwelsai ei thad hysbyseb yn y cylchgrawn *Exchange and Mart* am delyn, telyn Grecian Erard. Ei phris oedd £70. Fe’i prynodd, a dyna delyn gyntaf y ferch gerddorol o Frychdyn. Ei hathrawes oedd Alwena Roberts, ‘Telynores Iâl’ (1899-1981). Ac

athrawes ardderchog ydoedd. Ar y dechrau, teithiai Frances i Wallasey i gael gwersi. Wedi hynny bu'r ddwy yn cyfarfod yn nhŷ ffrind yng Nglyndyfrdwy. Deuai Alwena Roberts hefyd yn achlysurol i aros yng nghartref Frances, yn arbennig yn ystod y cyfnod 1950-55 pan oedd hi a'i phriod yn byw yn Ninbych. Tua'r cyfnod 1955-60 bu'n mynd i Goleg Manceinion i gael gwersi pellach gan Jean Bell. Bu hefyd ar gyrsiau gyda David Watkins, Plas y Delyn, Llanfyllin, gŵr a fu'n athro telyn yn y Guildhall. Yna, tua'r cyfnod 1955-60, arferai fynd i Goleg y Brifysgol, Bangor, am wersi cerddoriaeth gyda'r Athro D. E. Parry Williams.

Yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Powys

Yn niwedd y tridegau a dechrau'r pedwardegau bu'n cystadlu'n gyson ar yr unawd telyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac ennill droeon. Er enghraifft, enillodd yn olynol yn 1937, 1938 a 1939. Yn y pedwardegau bu'n cystadlu hefyd ym maes cerddoriaeth glasurol. Enillodd, er enghraifft, ar yr unawd soprano agored yn Nolgellau (1949). Yn gwbl nodweddiadol ohoni, fodd bynnag, rhoes y gorau i gystadlu y flwyddyn honno ac ymroi i hyfforddi eraill, ac y mae wedi parhau i wneud hynny hyd heddiw. Y mae cannoedd o blant ac ieuenctid - a llawer ohonynt bellach yn oedolion ac yn athrawon brwd eu hunain - yn datgan yn groyw iawn eu mawr ddyled iddi am eu paratoi ar gyfer cystadlu mewn eisteddfodau lleol, eisteddfodau taleithiol (Eisteddfod Powys yn arbennig), Eisteddfod Gydwladol Llangollen, eisteddfodau'r Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Yn yr eisteddfodau hyn i gyd rhoddai'r pwys bob amser - boed unawd telyn, cân werin, cerdd dant, neu ddawns - nid ar ennill, fel y cyfryw, ond ar gael pleser o gystadlu a rhoi pleser i eraill.

Yn yr un modd bu am flynyddoedd lawer yn barod iawn ei chyfraniad bob amser fel telynores yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu'n cyfeilio'n gyson yng nghynulladau Gorsedd y Beirdd, er



Cwrs Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Neuadd Glan y Môr, Y Barri, 10 Ebrill 1965

O'r chwith: *John Morris (darlithydd); Mrs Elin Morris; Frances Môn Jones (Trysorydd);*

Cynan (darlithydd); W Emrys Cleaver (Ysgrifennydd); W S Gwynn Williams (Cadeirydd a Golygydd)

1957, ac yn canu penillion droeon oddi ar y Maen Llog. Yn 1969 sefydlodd Gôr Telynau Powys a bu'n cyfeilio ar y delyn i unigolion a phartïon dawnio gwerin mewn eisteddfodau a chyngherddau lu. Hi, er enghraifft, oedd yn cyfeilio i'r dawnsiwr gwerin, Owen Huw Roberts, pan enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, 1977. Bu'n cyfeilio hefyd i gorau, megis Côr Ieuenctid Coed-poeth a Chôr Penarlâg. A bu ar sawl taith mewn gwledydd tramor. Derbyniwyd hi i'r Orsedd yn 1953 (Eisteddfod Y Rhyl), a'i henw oedd 'Telynores Brython' - i gofio am ei phentref genedigol, Brychdyn. Ymhen blwyddyn neu ddwy wedyn, fodd bynnag, ar awgrym Cynan, newidiodd ei henw gorseddol i Ffrances Môn.

Bu cysylltiad maith ac arbennig o ffrwythlon rhyngddi ac Eisteddfod Talaith a Chadair Powys. Hi oedd telynores swyddogol yr Eisteddfod, 1964-90, yn olynydd i Nansi Richards Jones, 'Telynores Maldwyn', a bu'n cyfeilio droeon cyn hynny i lenwi bwlch.

Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen

Yn yr un modd bu ynghlwm â llwyddiant Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen o'r cychwyn cyntaf. Tua 1939-40 cafodd gyngor gan Gwen Taylor, athrawes y Gymraeg a Lladin yn Ysgol Grove Park: 'Well ichi fynd at y dyn yna yn Llangollen sy'n gwybod pob peth am alawon gwerin'. W. S. Gwynn Williams, wrth gwrs, oedd y 'dyn' hwnnw. A phenderfynu mynd ato a wnaeth Frances. Yn y man, derbyniodd ei wahoddiad i ymuno â Chantorion Gwynn - 'The Gwynn Singers' - a fu'n canu llawer bryd hynny ar y radio. Yn bwysicach fyth, gwnaeth Frances Môn Jones gyfraniad amhrisiadwy o 1946 ymlaen yn cynorthwyo W. S. Gwynn Williams gyda'r Eisteddfod. Rhwng 1954 ac 1981, hi fyddai bob blwyddyn yn canu penillion i gyfeiliant ei thelyn i agor yr Eisteddfod. Cyflwynai eiriau wedi'u cyfansoddi'n arbennig gan ei phriod, R. Môn Jones. O 1978 hyd 1999 bu ar banel beirniaid cystadleuaeth y gân werin i unigolion. Cafodd plant a lles plant hefyd le canolog

ym mywyd Frances. A dyma un enghraifft yn unig o hynny: awgrymodd gystadleuaeth arbennig yn Eisteddfod Llangollen i ddawnswyr gwerin o dan 16 oed. Cynhaliwyd y gystadleuaeth hon gyntaf yn Eisteddfod 1996 a bu'n llwyddiant mawr.

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru a Chymdeithas Ddawns Werin Cymru

O blith y cymdeithasau y bu ganddi gysylltiad annatod â hwy, megis Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, y mae dwy ohonynt yn haeddu sylw arbennig. Rhoes wasanaeth eithriadol o werthfawr a ffyddlon i'r naill a'r llall am flynyddoedd maith, a mawr yw parch yr aelodau tuag ati. Un o'r Cymdeithasau hyn yw Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Bu'n aelod gweithgar ers y pedwardegau. O 1957 hyd 1985 bu'n Drysorydd y Gymdeithas. O 1985 hyd 1988 bu'n un o'r Is-Lywyddion. Yna, o 1988 hyd heddiw, bu'n Llywydd.

Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yw'r ail gymdeithas. Unwaith eto bu'n frwd ei chyfraniad er pan sefydlwyd y Gymdeithas hon yn Llangollen, ym mis Medi 1949, hanner can mlynedd union yn ôl. O 1958 hyd 1959 bu'n Is-Ysgrifennydd, ac, o 1959-71, yn Ysgrifennydd. Yna, o 1975 hyd heddiw, bu'n un o'r Is-Lywyddion.

Yn Eisteddfod Bro Dinefwr, Awst 1996, sefydlwyd Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru ac etholwyd Frances Môn Jones yn Llywydd. Bu ganddi hefyd gysylltiad agos iawn â Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru. Er 1968 bu'n cynrychioli Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru a Chymdeithas Ddawns Werin Cymru i sicrhau nawdd ariannol gan y Ffederasiwn, a'r un modd, er 1996, bu'n cynrychioli Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru.

Hyfforddi ac Ysbrydoli

Ym mhob un o'r ardaloedd lle bu Frances Môn Jones yn byw, ac

yn arbennig wedi symud i Lanrhaeadr-ym-Mochnant yn 1960 ac yna i Lanfair Caereinion yn 1965, bu'n eithriadol o ddiwyd a llwyddiannus yn hyfforddi to ar ôl to o blant ac ieuenctid i ganu'r delyn. Ar hyd y blynyddoedd bu'n croesawu telynorion a thelynorsau ifanc i'w chartref i dderbyn gwersi, neu yn cwrdd â hwy yn eu cartrefi eu hunain. Bu hefyd yn ymweld â nifer o ysgolion ym Maldwyn. Yn wir, ar gais taer athrawon a rhieni, y mae'n parhau i ymweld â thair ysgol o fewn cylch lled agos i'w chartref: Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion (15 disgybl); Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion (2 ddisgybl); ac Ysgol Llanerfyl (6 disgybl).

Dyna fraslun o gyfraniad nodedig y delynors, yr athrawes, a'r gymwynaswraig o Faldwyn. Derbyniodd glod haeddiannol am ei llafur gan unigolion a sefydliadau lawer. Meddai'r Dr W. Emrys Evans mewn llythyr ataf, 21 Tachwedd 1996: 'Gwnaeth gyfraniad aruthrol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Roedd yn un o sylfaenwyr Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ... ac fe'i hanrhyddedwyd gan y Frenhines â'r MBE yn 1983 am ei chyfraniad i gerddoriaeth ...' Yn 1994 derbyniodd ffiol wydr yn rhodd gan Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion i ddathlu 30 mlynedd yn athrawes y delyn. Arni ceir y cwpled a ganlyn:

Tebyg at debyg y tyn,
A thalent at ei thelyn.

Cyfarchwyd hi yn ei thro gan nifer o feirdd. Ym meddwl Frances Môn ei hun, fodd bynnag, y deyrnged fwyaf un yw gwybod bod cymaint o'r rhai a hyfforddwyd ganddi yn dilyn yn ôl ei throed. Y mae amryw ohonynt bellach yn athrawon telyn eu hunain, neu yn addysgu plant ac ieuenctid i ganu a dawnio. Gwyddom hefyd am lwyddiant arbennig rhai o'i chyn-ddisgyblion ar lwyfannau proffesiynol, megis Siân James, y delynors a'r gantores o Lanerfyl, a'r Athro Ieuan Jones, o Bontrobert, a fu'n delynor Tŷ'r Cyffredin am rai blynyddoedd ac sydd bellach yn Athro Telyn yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain.

Derbyn yn hael; rhoi yn hael. Drwy gydol ei hoes, am dros hanner can mlynedd, rhannodd ag eraill - a hynny'n llawen o wirfodd calon - beth o gyfoeth dihysbydd yr etifeddiaeth ddiwylliannol Gymreig ym maes y delyn, canu clasurol, cerdd dant, canu gwerin a dawnsio gwerin. Ei champ fawr fu ysbrydoli eraill. Gwnaeth hynny oherwydd ei doniau cynhenid a chynhesrwydd ei phersonoliaeth: mwyn, bonheddig, diffuant a thu hwnt o garedig. Gwn y bydd pawb sy'n darllen y geiriau hyn am ymuno â mi i ddiolch o galon iddi ac i ddymuno iddi iechyd a phob llawenydd.

Yn Eisteddfod Môn eleni (1999) dyfernir i Frances Môn Jones Fedal Syr Thomas Parry-Williams - Er Clod. Llongyfarchwn hi yn gynnes iawn. Gwn y bydd am rannu'r anrhydedd â'i holl ddisgyblion a chyn-ddisgyblion a phawb sy'n cyd-lafurio â hi i gynnal yr etifeddiaeth gyfoethog y buwyd yn sôn amdani yn yr ysgrif hon: cyd-rannu, cyd-ddiolch a chyd-lawenhau.


Nodyn

Daw'r ddau lun a gyhoeddir gyda'r ysgrif hon ac ar glawr y cylchgrawn o gasgliad Frances Môn Jones. Dymunaf ddiolch iddi, a'r un modd i Amgueddfa Werin Cymru am y printiau ohonynt.

BARDD Y NANT

Dafydd Glyn Jones

(Cyflwyniad a wnaed i gynhadledd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 11 Medi 1998, gyda Nia Tudur a Ffion Mair Jones - y ddwy yn fyfyrwyr yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Bangor, ac yn ymchwilio ar yr anterliwtiau).



I agor, canodd Nia ddetholiad o “Gywydd Hanes Henaint”, gyda Ffion yn cyfeilio ar y delyn, ar Gainc Llanofor, gosodiad Ffion Trefor Davies.

I

Dyna inni ddetholiad o “Gywydd Hanes Henaint”, un o’r mwyaf adnabyddus, a’r mwyaf personol, o gerddi Twm o’r Nant. Ym Mardd y Nant y mae o leiaf dri bardd, ac mae’r cywydd hwn yn cynrychioli’n deg un o’r tri. Mi fentraf eu rhannu nhw fel hyn: (1) y bardd eisteddfodol, (2) y bardd gwlad, (3) bardd yr anterliwtiau. Dyna dri phen y rhan draethodol o’n cyflwyniad heno.

Gyda'r bardd eisteddfodol, wnawn ni ddim treulio llawer o amser. Am ryw ddeng mlynedd wedi i'r Gwyneddigion ddechrau noddi'r eisteddfodau ym 1789 fe fu Twm yn gystadleuydd gweddol reolaidd am eu gwobrau, gyda thuedd i ddod yn ail, a thuedd i bwdu. Unwaith y daeth yn gyntaf, sef ar gyfansoddi byrfyfyr yn cisteddfod Llanelwy, 1790: efallai fod hynny'n dweud rhywbeth am natur ei ddawn. Gwnaeth englyn i'w longyfarch ei hun, rhag ofn nad oedd neb arall am wneud, englyn digon pethma. Colli fu hi yn y Bala (1789) ar "Ystyriaeth ar Oes Dyn", yng nghanol sgandal gyntaf yr eisteddfod fodern, pan aeth Gwallter Mechain â hi gydag awdl lawn cyn wanned ag awdl Twm, ar ôl tipyn o iro dwylo a thynnu gwifrau. Dyna ddechrau'r gynnen eisteddfodol rhwng y Nant a'r Mechain. Dyna hefyd y pryd yr aeth prif edmygydd Twm ymhlith y Gwyneddigion, Dafydd Samwell (Dafydd Ddu Feddyg) ati i geisio codi ei galon, yn gyntaf drwy anfon iddo'r ysgrifbin arian (sydd heddiw i'w weld yn Sain Ffagan) ac yn ail drwy ei urddo â'r teitl "Shakespeare y Cymry", teitl a safodd o leiaf hyd 1960 pan awgrymodd Bobi Jones y byddai "Molière y Cymry" efallai yn amgenach cyffelybiaeth. Colli i Ddafydd Ddu Eryri yn Llanelwy ar y testun "Rhyddid". Colli yn Ninbych (1792) ar "Cyflafan y Beirdd", a mynd i'r pŵd yn o ddwfn. Colli yng Nghaerwys (1798) ar "Cariad i'n Gwlad". Yn anffodus iawn, ac am ryw reswm digon anodd rhoi bys arno, degawd dylanwad y Gwyneddigion oedd y degawd hefyd pan ddigwyddodd rhywbeth i glustiau'r beirdd eisteddfodol; fe gymerodd drawfforch John Morris-Jones, ganmlwydd yn ddiweddarach, i'w haildiwnio. Fe ddaeth rhyw ball ar eu "dychymyg clywedol", ys dywedai T. S. Eliot; fe aethant allan o diwn. A hyd y gwelaf i nid oedd a wnelo dim â'u cefndir na'u haddysg na'u hyfforddiant: fe ddigwyddodd yr un fath yn union i Wallter Mechain, a oedd wedi cael addysg Rhydychen, ag i brydyddion hunanaddysgedig fel Bardd Nantglyn, Gutyn Peris a Thwm ei hun. Meddyliwch mewn difri: "Ystyriaeth ar Oes Dyn" oedd pwnc mawr Twm o'r Nant, dyma destun ei anterliwtiau a llawer o'i ganiadau, ac fe ganodd arno yn egniol gan

amrywio'i gywair o'r taer a'r difrif i'r ffraeth a'r deifiol. Pan ddaeth yn destun ffurfiol yn eisteddfod y Bala, fe fethodd ag ysbrydoli yr un llinell werth ei dyfynnu yma heno. Rhydd i bawb ddarllen yr awdl, yng nghyfrol Twm *Gardd o Gerddi* (1790, 1826), neu yng ngolygiad Isaac Foulkes (1874), a barnu drosto'i hun. Gallwch ddarllen ei Awdl Goffa i Goronwy Owen, yn yr un dull, ym *Mlodeugerdd Barddas o Ganu Caeth y Ddeunawfed Ganrif* (gol. A. Cynfael Lake), awdl *weddol* ddarllenadwy, ond yn sicr nid gorau Twm o'r Nant.

Fe drown ni at y Bardd Gwlad ynddo. Yr oedd gan y Bardd Gwlad, ers rhai cenedlaethau, *repertoire* bur cang, yn cynnwys canu mawl, marwnad a chyfarch, canu gofyn, canu i ddigwyddiadau hynod a throeon trwstan, canu crefyddol, annog a chynghori, tynnu coes, maswedd, dadlau, dychanu ac cnllibio. Mae'r pethau hyn oll gan Twm. Wrth fodio drwy ei gerddi, y rhai sydd yn *Gardd o Gerddi* neu argraffiad Foulkes, y rhai a gyhoeddwyd fel baledi, a'r rhai sydd mewn llawysgrifau, mi ddechreuais ofyn y cwestiwn - dim ond dechrau, cofiwech: faint sydd ganddo o gerddi cyfain da? "Ychydig", yw awgrym y blodeugerddi hyd yma. Fe ellir ei ateb yn well ryw ddydd ar ôl i rywun olygu'r cyfan, yn cynnwys y 350 neu ragor o gerddi sydd heb erioed weld print. Am y tro, ac ar sail argraff gyflym a chyffredinol iawn, 'rwy'n fodlon dweud bod ganddo lawer o *bethau* da. Gwrandewch arno'n canu ar "Gwêl yr Adeilad" i'w gyfaill Huw Williams, Saer Garthewin, a oedd wedi cael damwain ddrwg iawn ac wedi colli ei goes:

Bu ddweud a gwneud caniadau
Ar lawer o fesurau,
Foes araith gyson:
Ond wele heddiw alwad
I ganu "Gwêl'r Adeilad"
A dolur calon;
Llesg llun adeilad natur dyn;

Oherwydd pechod
Mae'r sail ar dywod
A'r llif a'i ddyrnod;
Dwys orfod nad oes un
Adeilad cnawd all sefyll
I'w hennill arni'i hun -
Sy'n syn, yr ansertenrwydd tyn
Sy ynglŷn wrth natur
Pob creadur,
Fel gwlaw o'r awyr
Fai'n brysur o fin bryn,
Yn rhedeg ar ddisgynfa
I lawr i gladdfa'r glyn.

Geiriau llanw? Oes, un neu ddau. Syniadaeth gyffredin, draddodiadol. Safbwynt disgwylidig. Ond na hidiweh. Dyna ichi bennill perffaith, a phennill cerddorol iawn, hyd yn oed heb y gainc i'w arwain. Dyna ichi'r "glust", y peth hwnnw yr oeddem yn cwyno'i golli o gerddi eisteddfodol Twm a'i gyfoeswyr. Mae'r gân yn mynd rhagddi i geisio codi calon y cyfaill anffodus, a'i gysuro a'i annog i ymddiried yn Nuw.

Beth am ddarn o gywydd?

Pan welais, hap iawn olud,
Ei eiddo mawr, a'i dda mud,
Ei lys hardd a'i lwys erddi,
Rhyfeddais, a synnais i
Wrth weled, aruthr waelod,
Dan deiau, clau leiniau clod,
Plas dirfawr, eglurfawr, glân,
Diau oll, a'i dai allan;
Ystablau, gweddus dwblwawr,
Y meirch a'r cerbydau mawr,
A meirch merth, gloywnerth glau,
Cuf reiol, i'r cyfrwyau,

A dygyn feirch rhedegwyllt
A enilla yrfa wych.

Dyma Twm yn canu mawl uchelwr yn y dull traddodiadol, ac ambell drawiad yn amlwg wedi ei ysbrydoli gan ei ddarlenn ar lolo Goch ac eraill o'r hen benceirddiaid. Syr Watkin Williams Wynn, neb llai, yw'r gwrthrych, a dyma ddiweddsglo'r cywydd:

Ac wedi'r byd hyfryd hwn,
Manwl y llwyr ddymunwn
Eu tragwyddol orfoledd
Gyda'r Tad, wir Geidwad heddd,
A'r wraig wen uwchben y byd,
Eirian geinfeirch, 'r un gwynfyd.
A phob bendith, dilyth dôn,
A fyddo i'r etifeddion.
Dawn delw Duw a fo'n dilyn
Wynnstay tra fo einioes dyn.

Fe gawn ddarlenn y cywydd, a'r un modd gywydd marwnad y Capten Roger Mostyn, ym *Mlodeugerdd Barddas*. Petacch chi neu fi'n gofyn, "Thomas Edwards, sut yn y byd mawr yr ydych chi'n cysoni hyn â'ch arfer o ddychanu gwŷr mawr am eu rhaib a'u hoferedd?", 'rwy'n siŵr y byddai ganddo ateb parod ym myrdwn ei gân enwocaf, "Pob Teiladaeth rhag Tylodi". Ac ymlaen ag o i'w colbio nhw ...

Mae'r canu gofyn yn gategori difyr iawn, sydd wedi derbyn sylw yn ddiweddar yn astudiaeth Bleddyn Owen Huws. Yr oedd cryn dipyn o fywyd ar ôl yn yr hen draddodiad hwn yn y ddeunawfed ganrif, fel y mae nifer o gerddi gan Twm yn tystio, cerddi caeth a rhydd, yn gofyn trosto'i hunan a thros eraill. Cerdd, er enghraifft, "I ofyn dillad, tros Wil Edward, *alias* Wil Satan, gan bedwar o wŷr tref Dinbych". Dyma inni Wil:

Mae o genhedlaeth wedi ei wneud,
Yn ŵyr i'r *Devil* mae'n arw dweud;
Ei dad a geid, er gwawdio,
Yn Siôn Satan a'i gŵn setio,
Rhyw ffwlach a fyddai'n ffowlio,
A hwn sydd gyw ohono;
Fe'i gelwir eto i ganlyn'r ach,
Drwy'n *city* byth yn Satan bach -
A dyna'r enw gloyw a glyw,
'Ran Satan fawr sy eto'n fyw.

Creadur go ddiffaith yw'r hen Wil Satan mae'n rhaid addef, ond
efallai y daw rhywbeth ohono os caiff siwt o ddillad:

Mae Wil yma'n waeledd a'i 'mgeledd yn gwla,
Heb fam ac heb dad, 'n amddifad mi addefa;
Ond bod mam-yng-nghyfraith, un odiaeth ei nwydau,
Yn gwneud iddo'n wastad drwy gariad ei gorau;
 Ei chowlaid fawr, a'i chaled fyd,
 Sy'n gwthio honno'n gaeth o hyd,
Ac yntau'r ynfyd blentyn,
Yn waetha' un ohonyn,
Yn difa pob edefyn;
Ceir gweled mai noethlymun
 Y bydd y drygddyn ar fyr dro,
 'Does fawr o'i fryntach yn y fro -
Fe roed y llurgyn diwellhad,
Ffargod ffôl yn 'ryscol rad;
 Caed yno brofiad cywren,
 Drwy ymgais gwir ddiangen,
 Nad âi mo'r ddysg i'w ledpen,
 Mwy nag i glol myharen;
Mul pendew filen ydoedd fo,
Uwchben y llyfr mor ddwl â llo.

Ni ddysgodd ef ronyn, mae'n hogyn anhaw'gar,
Ca'dd lawer o fistiff yn ffoi rhag ei feistar;
Nid âi fo fewn 'rysgol, rhoi esgus yn wastad,
Am rywle i rodianna, llyswra, a lle i siarad;
Ac wrth ymdroial hyd y dre,
Yn wael ei lun o le i le,
Fo wnaeth yn dylle'r dillad,
Ei glosyn gwla asiad,
A'i sgidiau nid oes gydiad,
Mae'r hogyn oll yn rhwygiad,
Annethe doriad, noeth ei din
'N sotgyw aflêr a sut go flin;
Pe baech chwi cystal, wŷr da'ch co,
Mewn hawl pur fwyn â'i helpu fo,
A rhoddi iddo'n ddiddan
Esgidiau, clôs a hetan,
Fe allai try fo allan,
Pan ddêl i nerth ac oedran,
I wneud rhyw swyddan er lleshad,
Neu fynd yn brentis rhag ofn brad.

Peth mawr gan wŷr a gwragedd y ddeunawfed ganrif oedd
berwig neu wallt gosod, a cheir Twm yn gofyn berwig fwy nag
unwaith. Iddo'i hun y tro hwn, ar fesur cywydd:

O, na fedrwn iawn fydru,
Gwnawn gerdd ac awen gu
I'm cydymaith purwaith pêr
A'm *namesake* yr un amser ...

(Fel i feirdd y Talwrn, mae rhyw hen air Saesneg yn ddigon
defnyddiol ambell dro!)

Mr. Thomas urddasawl
Iorwerth fwyn (?) sy werth ei fawl.

Rhodd o ferwig, rhwydd fwriad,
Er cynnes wir wres i'r iâd.

Cyfle wedyn i ddyfalu'r ferwig yn null yr hen feirdd:

To gwinau, ateg wanas,
Bondo cwrl i bendew cas,
Llen gêl i ochel yr ia,
Rhyw gwrwgl rhag rhwyg eira,
Gwisg o gydglwm gysgodglust
A dry draw y glaw o glust,
Blwch blaid gaeadblaid gydbleth,
Blewynnau a'u blaenau'n bleth,
Blaid ryfedd blew di-rifiant,
Mil yn uwch na Moel y Nant.

I'r moel ben er mael y bydd,
Gap rhwydwaith am gof prydydd,
Nyth i'r cof i wneuthur cân,
Noddgell i'r awenyddgan,
Cwybr rhwng wybr a llwybr y llau,
Cwch gwenyn lle cewch ganau,
Gwe penguwch y gwpangerdd,
Ffunen gylch ffynnon y gerdd,
Blif blawdd cae ansawdd cwnsallt,
Cwfl gwych yn cyfleu gwallt,
Cynhesgod yn cau'n wisgi
Am fy nghoryn oerwyn i.

Gofyn berwig eto dros Siôn Tyddyn Bach “neu yn gyffredin Siôn
Tafod Llithrig pan oedd yn jêl yn Rhuthun”. Pam yn union y mae

Siôn yn y jêl, 'does neb yn siŵr: oherwydd rhywbeth a ddywedodd,
dyna'r awgrym. Ac yn y sioc o gael ei garcharu, fe gollodd Siôn ei
wallt. Dyma beth o'r hanes:

Gwŷr ethol tref Rhuthun, bawb rhyngthyn yn rhes,
Derbyniwch gân newydd mewn awydd a wncs,
I'ch annerch a chwyno dros Gymro di-gêl,
A hwnnw, Siôn Wiliam, sy'n waelaidd yn jêl.

Rhyw ddynan â rhwydd ddoniau,
Am draethu geiriau gwir,
A'i dafod yn fwy llewaid
Na llawer yn y sir.

A dyna'n glir sy'n dwyno'i glod;
'Run fath â mul Balam âi'n wyrgam ei nod.

Rhyw dylwyth teg hudoled,
Os teg eu hagwedd hwy,
A ddaethant yn ddieithrol
Foreuol nerthol nwy,

I'w gyrchu o'i blwy i garchar pleth,
Na wybu fo o hyd yn y byd am ba beth.

...

Mae Siôn yn brudd, wrth synnu'r brad
A wnaed ar ei eiddo i'w ddilwyddo'n y wlad,

A galar iddo gweled
Druaned ydyw drych
Oer agwedd ei hen wreigan
Sy'n egwan arw'i nych.

Y gwŷr da gwyh, od ych chwi'n dallt,
O hiraeth arferol fe fwriodd ei wallt.

Pan aeth y gynhaliaeth fywoliaeth yn fas,
Ei wallt a'i gyfeillion a gollson yn gas.
Mae'n oersyn mewn arswyd a'r annwyd i'w ran,

O'i gadw'n ei geudwll, mor fwell yn'r un fan.
Uwch hynny 'rwy'n eich annog,
Wŷr enwog rywiog rodd,
I styried mewn tosturi
Y c'ledi mawr a'i clodd;
O rhynga'ch bodd, ehengwch beth
Ar hwn sy mewn diffyg, am ferwig mae'n feth ...

Rhowch iddo lechweddog rwyd flewog rad flys,
To dudew tŷ dadwrdd a chwprdd y chwys,
Gwisg rigol ysgrogell, yn llogell i'r llau,
Cuwch wyneb cwch gwenyn a'r corun yn cau,
Modrwyau cwrliau culion,
Clyd flaenion clwyd o flew,
Cywreinbleth feinbleth fanblyg,
Caerogblyg dyblyg dew.
Bydd Siôn yn lew yn swnio'i lol
Pan gaffo fo'r ferwig yn glennig i'w glol.

Rhyw greadur arall go ddiaphael a diymgeledd yn yr un ardal oedd Dafydd Roberts, neu Dafydd Segrwyd. Dros hwnnw hefyd fe ganodd Twm yn ddigon diddan, ar “Lan Medd-dod Mwyn” i ofyn crysau. Bwriad Dafydd oedd ymuno â'r milisia, ac mae “mewn gobaith o gael/Siwt ddillad cochion hoff wychion ddi-ffael”. Ond nid oedd y milisia, mae'n ymddangos, yn darparu crysau i fynd dan y siwt goch:

Gan hynny 'rwy'n crybwyll heb amwyll yn bur
Eich help a'ch tosturi i'w godi fo o'i gur;
Rhoed pawb o'i gyfeillion beth allan' yn rhwydd,
Tuag at geisio crysau, cu reswm, i'r swydd:
Er bod arno 'sywaeth fywoliaeth go fain,
Mae'r wraig yn lled addo ysmwddio'i grys main,
Rhag bod y gŵr talgrwn yn bricsiwn i'r brain:

Am hynny considrwch bawb, cofiwch y cwyn,
A gwelwch mae'n gwilydd bydd Dafydd ar dwyn
Heb grys dan ei wasgod, ar Lan Medd-dod Mwyn.

Fe rydd Ffion inni ar y delyn “Glan Medd-dod Mwyn” a'r
“Galon Drom”, dwy o'r hen geinciau yr oedd Twm a'i gyfoeswyr
mor hoff ohonynt.

II

Pryd, tybed, y dechreuodd y Cymry glywed hwyaden yn
dweud “Cwac cwac cwac”? Yr hyn a glywodd Twm o'r Nant gan
ryw hen hwyaden oedd yn mynnu cerdded ar ei ôl ryw ddiwrnod
oedd “Chwech chwech chwech”. Fe ganodd englyn iddi:

Lediwch o'm gŵydd, my ladi - eich “chwech chwech”
Ni chewch chwi eleni.
Oes orfod, amod imi,
Gnawes frech, roi chwech i chwi?

Llew Tegid sy'n cofnodi'r englyn, wedi ei gael gan hen ŵr o
Borthmadog, ac fe ddywedir mai Twm yw'r awdur. Efallai mai
tadogi sydd yma, ond rhaid dweud na welais mo'i dadogi ar neb
arall. Pe bai Wil Cwac Cwac wedi byrstio allan o'r ŵy mawr hwnnw
ddwy ganrif ynghynt, ai Wil Chwech Chwech fyddai ei enw tybed?

Pwy biau “Uchelgaer uwch y weilgi...”? Dewi Wyn, meddem
ni: ond cyn hynny yr oedd hi gan Dwm o'r Nant, yn agor englyn
(y cyntaf o ddau) i gastell Cricieth, testun mwy addas i'r geiriad,
erbyn meddwl. Mae gan Twm lawer o englynion unigol i hyn a'r
llall; byddai'n dda eu golygu i gyd, a gweld pa rai yw'r goreuon.

Mi hoffais i'r hen englyn proest yma, tad a mab yn llefaru bob yn ail linell, a'r tad yn hynod sgeptig ynghylch galluoedd y mab fel dyn busnes. Yn lle odli, mae'n proestio: pac, toc, plwc, clec:

MAB: Mi af i yn borthmon purion pac.

TAD: Ac wedi hynny torri toc.

MAB: Mi ddalia' i fyny heb blygu blwc.

TAD: Trwy'r tair sir y clywir clec.

Enw Thomas Edwards sy odano, ond nodyn hefyd yn dweud "Ioan Dafydd a'i sgrifennodd, 1753"; mae'n debyg i Ioan Dafydd ei gymryd i lawr wrth i Twm ei ddweud. Os gwir, 14 oed fyddai Twm.

'Rydym wedi cael blas o'r cerddi mawl, marwnad, gofyn, anogaeth a chyngor: dyna wedd fwy ffurfiol *repertoire* y bardd gwlad. Yn y pegwn arall y mae'r cwyno a'r dychan a'r enllibio, y canu i drocon trwstan a'r tynnu coes - a'r cyfan yna'n gorgyffwrdd. Wyddom ni mo'r holl gefndir i rai o'r rhain, a diau fod hynny'n cyfyngu eu hapêl. Ond mae rhywfaint o'r hwyl yn para. Dau farbwr yn Ninbych oedd Dic Robert a Dan Siencyn, gyda'r anfantais o fod yn ddau bur chwil, ac felly'n dueddol o grynu wrth eillio'u cwsmeriaid - meddai Twm, mewn cadwyn o englynion:

Canaf a allaf i eillio - bethau

Pathewau pwyth ddiog,

Dic Robert a'i drwyn cribog

A Dan Siencyn crencyn crog.

...

Meddwi a diogi ac ymdagu - wnân'

Brynhawniau nes cysgu,

A'r bore bydd, bob dydd du,

'R crwyniach a'u dwylo'n crynu.

Â'u hen eillynod anlluniaidd - rhwdlyd

A rhyw adlais grafaidd;
Yn lle'i thrin â min mwynaid,
Tynnu dan grynu o'r gwraidd.

Er aros yn hir oriau, - yr eillwyr
Allan o'u gwelyau,
Torri 'marf gyda'u harfau
Yn wir ddyn wnâi'r un o'r ddau.

Gwylltiais a rhegais am fy rhagod - 'mlaen
Mileiniais mewn hylltod,
Na rown fy marf dan arf nod
Feth ddwylo'r fath Wyddelod.

Rhyw dro trwstan diniwed yn Ninbych yw cefndir "Caniad y Sebon,
ar fesur triban" a gyhoeddodd Twm mewn taflen. Gweision rhyw
siopwr yn Ninbych yn trio gwneud sebon, heb gael fawr hwyl arni,
nes daeth rhyw Ddoctor Spadden (pwy oedd tybed?) i'w rhoi ar
ben ffordd. Dyna hynny o stori sydd:

Gwrandawed Cymry a Saeson
Ar hanes cywir union
Fel bu 'nhre Ddinbych harddwych wŷr
Yn syber wneuthur sebon.

Nid ydyw gwŷr Iwerddon,
Na'r Isle of Man, rai mwynion,
Wrth bobl Ddinbych, clywas ddweud,
Ond siabas am wneud sebon.

... ac ymlaen. Rhywbeth sydyn, diniwed, ond yn ddigon ffel ar yr
hen fesur triban, ac yn cynganeddu "sebon" mewn ffordd wahanol
21 o weithiau! Ambell bennill eto:

Mae ganddo weithwyr ffyddlon,
O ymddygiad cywir ddigon,
A fedr ferwi lludw a chêr
A sibus gwêr yn sebon.

(Fel yna dechreuodd Unilever, wyddoch chi.)

Ynghyd â'r gwaith yr aethon
Yn wresog iawn ryw noson,
Gan weithio'n drwch heb gael ar dro
Fawr seibiant efo'r sebon.

'Roedd pawb o nerth ei galon
Yn chwysu drwy achosion
Wrth dendio'r ffwrnes yn ddi-ffael,
Naws hybarch, am gael sebon.

Er coethi a berwi'n burion
Ffwrneisiaid (ffei o'r noson),
Fe dyng'e'r gŵr yn wael ei hap,
'Does obaith clap o sebon.

A'r gweithwyr hwythe'n gaethion,
Gan dremio'u c'lonnau'n drymion,
A ofnent mai rhyw un o'r fro
Droes heibio i witsio'r sebon.

Ond dwede'r prentis tirion,
Ar lwgu'n groes 'i olygon,
Rhown dro'n y ffwrnes gyda'r rhaw,
'Does wybod na ddaw sebon.

Wn i ddim a yw'r dafarn yn sefyll o hyd yn Wrecsam, na faint o sêr
sydd ganddi, y mae Twm yn ein rhybuddio mewn englynion i'w
hosgoi:

Mae cap esgob cip osgo - a'r talcen
At helcyd rhai yno
Och ddynion! Gwyliwch dano,
Cap y diawl, di-fawl yw fo.

Y “Mitre”, mae'n amlwg, oedd y dafarn. Fe fu helynt o ryw fath yno, i beri i'r bardd roi ei gas ar y lle; mae cymaint o flagardio yn yr englynion fel ei bod yn anodd deall yn union beth a ddigwyddodd. Gair drwg hefyd i ryw lety yn Helygain, lle bu raid i Twm a'i was dreulio noson lawog ar eu ffordd o ffair Gaer: y bwyd yn wael i ddyn a'i geffyl, y gwely'n damp, llond y lle o fwynwyr yn cadw sŵn, a'r perchennog yn codi crochris ac yn torri ei gytundeb.

Un o brif destunau Thomas Edwards o'r Nant yw hynt a helbul Thomas Edwards ei hun. Fe gawsom ni dipyn o hynny yng “Nghywydd Hanes Henaint”, a ganwyd gan Nia ar y dechrau, ac sy'n rhoi ar gynghanedd beth o'r un defnydd ag a geir yn ei hunangofiant rhyddiaith: y fath hogyn gwyllt ydoedd, serch hynny ei awydd i ddysgu, y rhwystrau yn ei ffordd, a'r diffyg cefnogaeth gartref:

Fy athrylithr yn llithrig,
Âi gyda chwant, gwaed a chig;
Ias fyw oedd fy ysfa i,
Anian burwyllt yn berwi;
Byw awch gynneddf bachgenyn,
A geidw gof, iawn ddof yn ddyn.

Dysgais i ddewrllais ddarllen,
Ar waith fy mhwys, wrth fy mhen,
A sgrifennu, mynnu modd
Rhieni, er mor anodd:
Byddai mam yn drwyngam dro,
Ran cannwyll oedd rhinc honno;
Fy nghuro'n fwy anghariad,
A baeddu'n hyll, byddai nhad.

Minnau'n ddig o gynfigen,
Cas o'm hwyl, yn cosi mhen,
Ac o lid, fel gwael adyn,
Llosgi ngwaith yn llesg 'y ngwyn.
Er hynny'n ôl trefnu tro,
I'r un natur awn eto;
Ym mhob dirgel gornel gau,
Fy holl wiwfyd fu llyfrau;
Sgrifennwn res grai fynych,
Mewn hunan grwm yn nhin gwrych;
Symud bys, rhag ysbys gau,
Lle'n wallus, i'r llinellau;
A'm gwaith nos dangos wnâi'r dydd,
Mor fywiog, a mawr f'awydd;
Fy holl wanc a'm llwyr amcan,
Darllain ac olrhain rhyw gân.

Dwy thema arall yn y cywydd yw cwyno am bwys y blynyddoedd a gofidio colli hen gyfeillion - *De Senectute* a *De Amicitia*, ys dywedai Cicero yn ei ddau draethawd mawr eu dylanwad. Fe restrir ei athrawon, ei gefnogwyr a'i gyfeillion sydd wedi ymadael: Siôn Dafydd y cloesiwr o Bentrefoelas; Edward y Cowper o Nantglyn...

A Dafydd, llyfrgellydd gwiw,
Awdur hyfaint o Drefriw;

Tomos o Dai'n Rhos; Huw Siôn, bardd Llangwm; Siôn o'r Bala (efallai y dawnus a'r helbulus Siôn Cadwaladr, a dransportwyd am saith mlynedd i America, ond a ddaeth yn ôl i ganu ei brofiad); Elis "y Cowperfardd, co' purfaith"; Dafydd Jones o Lanfair Dyffryn Clwyd; Edward Jones Bodfari ...

Ac Ifan Hir, cu fwynhad,
Cyffaraith, ac offeiriad;

Y gŵr hwn, â gwawr heini,
Prydydd a'm priodawdd i.

I gyd wedi mynd erbyn hyn - 1799 oedd y flwyddyn. Mae tri hen ffrind ar ôl, a diolch amdanynt - Rhys Jones o'r Blaenau, Rolant Huw o'r Graienyn, a rhywun a elwir "Bardd Collwyn". Ysywaeth y mae llawer gormod yn y byd o bobl nad ydynt yn llawn werthfawrogi "athrylithr" y bardd o'r Nant, a'i gyfrol *Gardd o Gerddi* bellach ar y farchnad ers naw mlynedd:

Trwm [yw] adrodd trem edryd,
Llwm oer barch, mai llyma'r byd,
Na cheiff bardd *Gardd o Gerddi*,
O fraint mo'r cymaint â'r ci.

Na hidiwch:

Ond er gwenwyn Dewr gwannaidd,
Gwneud diben f'awen, pwy faidd?
Ffynnon yw a'i phen i nant,
Ffrwd breiniol, ffriw dibriniant;
Dull geudwyll nid eill godi
Rhestrau hadl i'w rhwystro hi.
Er a welais o drais draw,
Rhai astrus am fy rhwystraw,
Ac er colli gwŷr callwych,
Tra gallaf, rhodiaf fy rhych.

Beth gewch chi well? Dyna ichi un o bethau ysgubol y ddeunawfed ganrif yng Nghymru.

Fel Dafydd ap Gwilym o'i flaen mae Twm yn eithaf hoff o adrodd am ei droeon trwstan a'i drychinebau ei hun; fel W. J. Gruffydd ar ei ôl mae'n hoff o'i ddarlunio'i hun fel cymeriad

dadleuol a hogyn drwg. Gall yr agwedd amrywio: weithiau ateb “enllibwyr” a “chelwyddgwn” chwedl yntau, a’u herio i wneud eu gwaethaf; dro arall addef ei bechodau ac addo diwygio, ond gan fradychu peth ymffrost mewn bod yn dipyn o rafin. O blith amryw bethau o’r natur yna sydd ganddo, mi hoffais y pennill hwn, sy’n cynnwys peth o’r un defnydd hunangofiannol a chyffesiadol, ond yn gosod y cyfan hefyd yn y cyd-destun changaf posibl, cyflwr syrthiedig yr hen hil:

Mae’r gair imi ar goedd gan bobloedd y byd
Fy mod i’n anhydyn ddihiryn o hyd;
’Rwy’n gweled y gwir, annifyr yw’r nod,
Nad oes neb yn osio fawr gludo imi glod.
Rhieni rhy annoeth yn benboeth ’u bodd
Mewn dull felltgedig am ryfyg a ’mrodd,
A minne’n eginyn mor gethin ar gais,
Mewn twrw naturiol, dull unol fy llais.
Hen Adda yn anweddedd yw’r serthedd oer sail:
Gobeithio ca’ i rwydeb [= rwydd-deb] ar undeb yr ail.

Yr oedd mynd mawr yn yr oes ar foesoli, cynghori ac annog, a rhybuddio mynych yn erbyn tyngu, meddwdod, anlladrwydd a godineb. Fel ei gyd-feirdd i gyd - Elis y Cowper, Jonathan Edwards, Dafydd Jones, Huw Jones, Siôn Cadwaladr ac eraill - y mae gan Twm ddigonedd o ryw ganu fel hyn, mewn gwahanol ffurfiau a chonfensiynau: anogaeth uniongyrchol, cyffes a phrofiad y pechadur, ymddiddan rhwng dau, ac weithiau ymddiddan rhwng dyn ac anifail neu aderyn. Hen ddosbarth difyr iawn yw’r olaf yna, a dyma ichi ddechrau egniol “Ymddiddan rhwng Dyn a Cheiliog” o waith Twm, i’w chanu ar “Brunses Reiol”:

D: Dydd da fo i’r ceiliog, enwog un,
Sydd yn ei glwyd, swydd unig lŷn,
Yn bore byncio er deffro dyn:
’Rwy’ti’n aderyn doeth.

- C: Dydd da fo i tithe'r Cymro cu;
'Rwy'n gwneud yn fore'r swyddde sy'
Yn f' ordinhad ar fwrddwn hy
Drwy allu canu coeth.
- D: 'Rwy'n dallt ar dir, da wir, dy waith
A'th fwyn foreuol unol iaith,
Rhwing dydd a nos mewn diddos daith
Proffwydo'n ffri y byddi di:
Mae rhyw ysbrydol raddol ri
Yn perthyn iti'n faith ...

Ac ymlaen am benillion lawer: y casgliad a'r wers yw fod i ddyn a cheiliog eu diben ordeiniedig, ac mai eu dyletswydd ill dau yw bod yn fodlon, a chanu â'r llais a roddwyd iddyn nhw, a gwneud eu gorau yn y safle a bennodd rhagluniaeth ar eu cyfer.

Cangen o'r canu rhybudd a chyngor yw'r caneuon hynny sy'n cwyno am y cyflwr priodasol, gŵr yn ei achwyn ar ei wraig, neu wraig ar ei gŵr, gyda chyfoeth o eirfa ddifriol gan y naill ryw am y llall. Gallwn adnabod rhai o'r elfennau yng nghân werin "Yr Hen Wyddeles", ond mae *Ductor Nuptiarum neu Gyfarwyddwr Priodas* (Williams Pantycelyn) hefyd yn perthyn i'r un byd. Dyma, gan Twm, linellau ar "Atebiad Cyffes y Wraig Ieuanc, i'w chanu ar *Hunting the Hare*" (y gŵr dadrithiedig sy'n siarad):

Ond wedi'r holl gwbwl, oer drwbwl ar dro,
Y byd aeth i bwyso'n o bell,
A'r gangen wen gymen âi'n slyfen yslô,
Ni byddwn er gwingo ddim gwell.
Pan gafodd hi i'w drin blentyn bach blin,
Hi eisty yn y lludw, rith arw, ar ei thin,
Ai daulin a'i dwylo yn baetio mewn baw,

Fel hwch fyddde difraw yn y dom:
Ni cha' i ganddi'n siŵr, fel gwedde o flaen gŵr,
Na llaeth nac emenyn na deigryn o'r dŵr,
Na threinsiwr na chwpan yn lân yn ei le:
Pwy felly na ffraue yn o ffrom?

Ni chyfyd hi o'i gwely, mae'n gwilydd i un gre'
Fod felly bob troue heb ddim trefn;
Wneiff hi ond mynd i'r cwpwrdd, a dadwrdd am de,
Ac eiste, neu chware ar ei chefn;
Ni fedr hi ar frys, dda lendid ddi-lys,
Na golchi na smwddio yn gryno imi grys;
Mae'n wallus fy nillad, a rhwygiad y rhain,
Ni thrwsith un llain er fy lles;
Ni wneiff hi'n ddi-nam, pan gwynw' i 'nrwg lam,
Na chorddi na godro, ond moedro am ei mam;
Fy ngham sy resynol, chwi synnech i gyd,
Py gwyddech chwi'r gofid a ges.

Ni byddai Twm o'r Nant yn fardd nodweddiadol o'i gefndir a'i genhedlaeth oni bai fod ganddo'i stoc o garolau plygain a charolau Pasg. Mae ganddo hefyd gryn nifer o'r pethau a elwid "carolau clwb", i'w canu uwchben y bwrdd yng nghyfarfod blynyddol cymdeithas elusenol - dosbarth o ganu yr oedd ei gyfaill Jonathan Hughes, Llangollen, yn arbenigo ynddo. Rhwng Huw Morys a Dafydd Ddu Eryri mae cannoedd ar gannoedd, synnwn i ddim nad oes miloedd, o garolau duwiol. Ymateb parod y darlennydd modern yw teimlo'u bod yn rhy hir, a'u bod yn ail a thrydydd adrodd yr un peth. 'Roedd yr hen feirdd, unwaith 'roedden nhw'n ei chychwyn hi ar "Cast Away Care" neu "Betty Brown", yn ei chael hi'n anodd iawn stopio. I'n meddyliau mwy gwibiog a'n hamynedd byrrach ni, mae dau neu dri phennill (yn lle, dyweder, pymtheg) yn gwneud gwell carol, a detholion a genir pan genir nhw. Ond pan ddaw hi'n

bryd dethol, nid yw mor hawdd, gan fod cynifer o'r penillion cystal â'i gilydd, a derbyn eu dull nhw. Ni wnaaf ond eich cyfeirio at dudalen 425 yn argraffiad Foulkes, carol plygain ar "Miller's Key" (neu "Billiricay"): "Tydi, o ferch ardderchog, oreuog Wraig yr Oen...".

Carolaidd o ran eu dull yw caneuon yr anterliwtiau bron i gyd, hynny yw mae eu mesurau'n acennog ond yn gynganeddol neu led-gynganeddol drwyddynt, gyda mynych odlau mewnol a chyrch: "canu rhydd caeth", neu "ganu caeth newydd" fel y dywedir weithiau. Mae'r cyfan wedi eu llunio ar donau poblogaidd, y bydd llawer o'u henwau'n gyfarwydd i chi, ac nid eu henwau yn unig chwaith 'rwy'n siŵr. Amdanaf fy hun, mae arnaf ofn na allwn i ddim chwibanu, chwaethach ganu, "Blode'r Gogledd" na "Brynie'r Werddon" petaech chi'n talu imi; a phan ddois i gyntaf ar draws "Susan Lygatddu", rhaid imi gyfaddef i'm meddwl fynd yn ôl at gân bop o eiddo Guy Mitchell ym 1953. Fe gân Nia inni, ar dôn "Clychau Rhiwabon", y penillion grymus sy'n dod yn *Pleser a Gofid* ac yn crynhoi llawer o'i thema, gyda'r byrddwn "Ple, ple bydd dyn yn esmwyth dan y ne?"

Tosturus ydyw ystyried,
Wrth weled anferth wall,
A'r gofid byd sy'n gwasgu,
'Mron llethu'r naill a'r llall.
I ble troir, na bo bloedd trwst,
Ac anian ffrwst, rhyw gwynion ffraeth,
A dynol blant yn dyn eu bloedd,
Eu bod yn goedd a'u byd yn gaeth?
Prudd, prudd, gwae anfon sŵn gofidiau sydd,
Yn gas o ran gwir eisiau 'mroi,
Am rym i ffoi dan rwymau ffydd.
Ple, ple bydd dyn yn esmwyth dan y ne?
Cheir odid beth o ryddid byd
Heb gadwyn gofid gydag e.

Gofidus byw dan rwymau,
Gofidus bod yn rhydd,
Gofidus nos mewn gwely,
Gofidus ganol dydd.
Mae gofid blin yn gafod bleth,
Wrth dalu treth neu ddilyn trâd,
I dorri dyn ar dir a dŵr,
Mae mawr ystŵr ym mhob rhyw stad.
Blin, blin, gofidiau traws, gwael fod eu trin,
Eu pwyth sy'n bwys 'mhob peth sy'n bod,
Trwy riwl y rhod, trwy'r haul a'r hin.
Ple, ple bydd dyn yn esmwyth dan y ne?
Cheir odid beth o ryddid byd
Heb gadwyn gofid gydag e.

...

Heblaw'r allanol ofid,
Sy'n llid rhwng nef a llawr,
Gofidiau syn olynol,
Tufewnol eto'n fawr,
Cydwylbod flin a dibaid floedd,
Sy'n gweiddi'n goedd, a'i gwaedd yn gaeth;
Bu Suddas ffals, bu Esau ffôl,
Bu Cain a Saul yn cwyno'i saeth.
Duw, Duw a wnelo i bawb anelu byw,
Trwy gadw a'r draul cydwylbod rydd:
On'd e, daw'r dydd bydd brudd y briw.
Ffydd gre'r creadur newydd eiff i'r ne;
Fe dderfydd poen, fe dderfydd byd,
Fe dderfydd gofid gydag e.

Canwyd y gân hon yn ddigyfeiliant.

III

'Rwy'n siŵr ichi adnabod, yn chwe llinell olaf pob pennill, fesur sy'n dod yn agos iawn at "Braint, braint/Yw cael cymdeithas gyda'r saint", neu fesur Hugh Jones Maesglasau yn "O tyn/Y gorchudd yn y mynydd hyn", neu'n wir y mesur a ddewisodd Waldo Williams yn ei "Eirlysiau" (Gwyn, gwyn/Yw'r gynnar dorf ar lawr y glyn). Mr Rheswm Natur sy'n llefaru yn y rhan hon o'r anterliwt, ond erbyn hyn yn cyfaddef ei ddiffyg ei hun a'i fethiant i esbonio trueni dyn. Yn ei ffordd, mae cystal â phethau gorau emynwyr y ddeunawfed ganrif.

Wrth sôn am "fardd yr anterliwt" 'rydym yn cyfeirio at ei ddialog mydryddol, ac at y caneuon a osodir hwnt ac yma. Gofyn cyntaf yr anterliwt yw ei bod hi ar ddialog ac ar fydr: gall popeth arall amrywio. Mewn darlith bwysig ar "Poetry and Drama" (1950) fe ddywedodd T. S. Eliot nad yw'r un ddrama fydryddol yn farddoniaeth fawr *drwyddi*; nac efallai yn farddoniaeth o gwbl, *drwyddi* - dim ond ar adegau. Er hynny mae'n dal fod pob cyfiawnhad dros fydryddu drama drwyddi: cadwer mydryddiaeth, meddai, fel rhyw sylfaen neu fframwaith, ac fe wna'r farddoniaeth frigo i'r wyneb hwnt ac yma. Os yw'r awdur yn wir fardd, fe ddigwydd hynny'n aml, a chyda nerth. Wedi'r cyfan rhaid sôn am bethau cyffredin bywyd, mewn drama fydryddol yn union fel mewn unrhyw ddrama arall; rhaid gofyn faint yw hi o'r gloch, a thrafod y tywydd - fel y gwneir yn yr olygfa enwocaf, ond odid, mewn unrhyw ddrama fydryddol, golygfa agoriadol *Hamlet*, a honno a gymer Eliot yn enghraifft o'r hyn sydd ganddo mewn golwg. Mi gredaf y gallwn ddweud yr un peth am anterliwtiau Twm a rhai o'r awduron eraill. Mae'r triban a'r mesurau pedair llinell eraill yn eu llwyr gyfiawnhau eu hunain. Mae i'r anterliwt ei sŵn ei hun, sydd bob amser yn rhoi boddhad i mi: mydryddiaeth sydd ar un wedd yn ffwrdd-â-hi, ac ar yr un pryd yn soffistigedig, a chyfoeth o draddodiad ac o brofiad y

tu ôl iddi. Mi fyddaf yn hoffi ei hagoriad ffurfiol, y ffordd y mae'n mynd i gêr ac yn powlio rhagddi, a'r ffordd y mae'n cloi.

Dyma inni agoriad *Y Ddau Ben Ymdrechgar sef Cyfoeth a Thlodi*, gyda lemwnt Wamal, y Ffŵl, yn cael y gynulleidfa i dawelu a rhoi eu sylw:

Wel, rhowch yma osteg, a gwnewch sefyll neu eiste',
Bawb oll yn gyflawn, yn hyn o gyfle;
Chwi gewch ddiddanwch bod ag un
Os galla' i'n ddiddychryn ddechre.

'Rwy'n meddwl o ran eich moddion
Eich bod yn gwmni heddychlon;
Gobeithio'r ydwyf yn hyn o le,
Y byddwch fel finne'n fwynion.

Y mae gennyf i chwaryddiaeth newydd,
A gefes gan Dwm y Prydydd,
Heb ddim ond dau ffŵl ar hyn o dro
I'w gweled yn ymgomio â'i gilydd...

Yna'r darn disgwylidig lle mae'r ffŵl yn tynnu ar y merched, ond
Twm at ei gilydd yn geirio'n fwy llednais - neu o leiaf yn llai aflednais
- na'r rhan fwyaf o'r anterliwtwyr eraill:

Dowch, ferched, ar dyfiad ofer,
I'r *meeting* yn nes i'r mater;
Anaml y bydd drwg hyd y wlad neu dre
Mewn gafel, na bo chwithe ar gyfer.

Edr'wch yma, mor lân eu boche
Y daeth fy chwiorydd i'm gweld yn chware:
Pwy ydi hon acw sy'n gostwng ei phen?

O, Neli! fy nghanen ole.

Corff barcutan! ond dacw fy chwaer Cati,
Siân a Gwenno, mewn syn gyni;
Mali, a'r snisin hyd ei thrwyn,
A'r bwtog fwyn gan Beti ...

Mydryddiaeth berffaith addas i'w diben, ddywedwn i. Y cloi wedyn
- byddaf yn hoffi pennill ola'r ffŵl, Mr Rhyfyg Natur, yn *Tri
Chydymaith Dyn*:

Pwy bynnag nad oedd yn ein leicio,
Na ddoed ddim atom eto;
Nid a' i ddawnsio ac i ledu ngheg
Ddim chwaneg, nos dawch heno.

Yn ei benillion pedair llinell gall Twm daro amrywiaeth o
gyweiriau. Dyma Reinallt y Cybydd, newydd ddeall nad yw'n cael
dim yn ewyllys Lowri Lew ei fam:

O'r felltith greulon, trallodion llidiog!
Beth wna' i o gynddaredd wrth fy mam gynddeiriog?
Pe gwelwn i hi'r funud yma'n hyn o fan,
Mi a'i curwn hi'n anhrugarog.

Cywair hollol wahanol:

Peth mawr cael gras a gwir fodlonrwydd,
I fentro'n gwbl ar yr Arglwydd,
Tu hwnt i ofid, llid a chyffro,
Gwyn ei fyd y sawl a'i caffo.

Madam Boddlondeb Crefydd sy'n siarad, yn *Pleser a Gofid*; a dyma
cfallai cyn agosed ag y daw Twm o gwbl at dnerwch. 'Does dim

llawer o hwnnw yn yr anterliwtiau, nac yn ei gerddi. Gwawd, dicter,
eirioni yw'r pethau amlycaf, ond weithiau hefyd ar dro ryw daerni
neu ddifrifwch sy'n torri trwodd yn sydyn wrth sôn am gyflwr dyn.
Syr Tom Tell Truth, o ganol ei gellwair:

Mae dyn wrth naturieth wedi torri'n druenus,
A'i feddylie'n anwadal, yn falch ac yn wawdus,
Yn ymlid, fel canghenne pren ar wynt,
Ryw helynt afreolus.

Fe ddigwydd droeon fel yna, y farddoniaeth yn "torri trwodd",
chwedl T. S. Eliot, yn dod ar ein gwarthaf ni bron heb inni ddisgwyl.

Fwy nag unwaith fe geir yr olygfa fer honno lle mae dau
gymeriad yn siarad mewn dau gywair gwahanol, yn adlewyrchu
dau fyd gwahanol, ac am y pared â'i gilydd; er enghraifft y dialog
gwyd rhwng Cariad Perffaith ac Alis Ach Elwa yn *Cybydd-dod ac
Oferedd*:

CARIAD: Y Gwir Gariad ewyllysgar
Wna hir ymaros yn ddioddefgar;
Nid yw yn cenfigennu un tro;
Mewn osgo mae'n gymwynasgar.

Y Cariad Pur nid yw'n ymffrostio
Mewn awch eiddig, nac yn ymchwyddo;
'Does feddwl drwg, na hunan-dra,
Nac anweddeidd-dra ynddo.

Nid yw lawen am anghyfiawnder,
Ond cydlawenha â'r gwir bob amser;
Y mae'n amyneddgar, ddoethgar, dda,
Trwy lendid a ffyddlonder.

ALIS: Wel, ni fuasai waeth o ffyrllin
Trwy lewder iti siarad Latin,
A sôn am dy Gariad, wastad wedd;
Ni wn i am ei rinwedd ronyn.

Y Cariad mwya' wn i amdano
Ydyw yd ac enllyn i ymgynllwyn ag efo;
Ceffylau a defaid a gwartheg iach,
A chlywed llo bach yn beichio.

CARIAD: Mae'r rheini'n dda i'w lle a'u helynt;
Ni wiw i neb roi'i galon ynddynt.
Pethau'r byd i gyd sy'n darfod,
A thragwyddoldeb maith yn dyfod.

Mae mor blaen a di-lol nes mynd â'ch gwynt chi am ennyd.

Byddaf yn arbennig hoff hefyd o'r rhediadau hynny yn yr anterliwt sy'n rhestru a phentyrru, ac ychwanegu argraff ar ben argraff o'r un peth: y golled ar yr hen dyddyn wedi marw sydyn yr hen wraig; yr anhrefn yn nhŷ'r cybydd unwaith iddo droi ei gefn; y cybydd yn ymhyrddio o un trychineb i'r llall wedi iddo gael ei gamarwain a'i dwyllo gan y ffŵl; cymeriad yn ei gyflwyno'i hun a'i ddarlunio'i hun yn ei liwiau, ac o'r naill bennill i'r nesaf yn rhagori arno'i hun mewn rhaib a rhagfarn, diogi a diffcithdra. Os medrwc chi rywsut yn y byd gael gafael ar argraffiad Foulkes, darllenwch er mwyn popeth gyffes a hunangofiant Diogyn Trwstan yn *Cyfoeth a Thlodi*, t. 291 ymlaen. Un o bethau mawr y ddeunawfed ganrif eto! Sobor o beth nad oes argraffiadau modern o'r anterliwtiau. Trueni hefyd na bai ambell gwmni drama'n rhoi tro arnyn nhw'n amlach, inni gael eu gweld a'u clywed. Oherwydd yng ngeiriau Wil o'r Afon, y Twm o'r Nant Seisnig, "The play's the thing".

Wedyn caneuon yr anterliwt. Mae iddynt ddwy swyddogaeth: y gyntaf yw crynhoi ac ategu a phwysleisio neges foesol yr anterliwt; a'r ail yw rhoi cyfle i un actor fynd i'r cefn a newid ei fymryn gwisg cyn ailymddangos fel cymeriad arall. *Ensemble*, fel y dywedir heddiw, oedd dull y cynhyrchu, gydag ychydig iawn o actorion yn chwarae nifer o rannau. Yr oedd y caneuon yn rhoi seibiau hwylus rhwng y golygfeydd byrion. Yr oedd dawns yn ateb yr un diben weithiau, ac ym mhob anterliwt bron, gan Twm ac eraill, ceir y confensiwn o alw ar y cerddor (ffidler, mae'n debyg) i ddod ymlaen a chyfeilio. Fe gyfeirir ato'n eithaf amharchus - "y cerddor tene" yn bur aml - a gwawdio seiniau ei ffidil. Syr Rhys y Geiriau Duon, yn *Pedair Colofn Gwladwriaeth*:

Tyrd dithau'r cerddor tenau,
Cais dynnu rhyw sŵn o'th dannau,
Fel y gallwyf ddawnsio tro
Yn burddewr, i dreio'r byrddau ...

sef i weld a ydi'r hen lwyfan 'ma'n dal. Mewn ysbryd tra gwahanol, a heb fwriad i "dreio'r byrddau", gallaf eich sicrhau, 'rwy'n gwahodd Ffion i roi inni "Gwynfan Prydain" a "Ffarwel Ned Puw".

IV

Wrth lunio'u caneuon, caneuon yr anterliwt a rhai eraill, yr oedd Twm a'i gyd-feirdd yn defnyddio cryn dipyn o Lego: trawiadau parod, clymiadau traddodiadol, fformiwlâu oedd wedi bod ar dro ers o leiaf ganrif. Ddarllenwn ni ddim ymhell heb daro ar ryw "oer alar gri", rhyw "weddus foddus fun", rhyw "burlan barch", rhyw "reidus rodd", rhyw "Gymro'n ymgomio ar goedd", rhyw "ddynion doethion eu dawn", neu ryw "ddiwedd dychrynllud sy'n drymllud ar draws". Unwaith eto, "na hidiwn" yw'r gair. Mae'r hen fformiwlâu yn weddus yn eu lle, ac yn gwasanaethu'r ystyr, a Thwm yn gallu creu ohonyn nhw ganeuon sydd nid yn unig yn

bersain a cherddorol, ond weithiau'n rymus hefyd. Rhys y Geiriau Duon sy'n canu am gyflwr Eglwys Loegr, ar "Amor Elis" (Amaryllis) neu "Ianto'r Coed":

Clyw Eglwys Loegr ffraethber ffri,
Hap lwyra' stad, pa le'r eist ti,
Yng nghanol dy urddol frawdol fri,
I'r fath drueni anian?
'Nôl dwediad Gildas atgas wawr
Y gwyfaist lawr yn gyfan,
Cans dy weinidogion sydd dan ffêr
Yn haeddu eger ogan.

Trwm achos ofni'n enbyd sy,
Beth wnaiff y wlad, gyffredin lu,
Tra bo'r blaenoriaid, harddblaid hy,
Wedi dallu gan dywyllwch?
A'r dall, truenus, warthus wall,
Yn t'wyso'r dall, deëllwch,
Mai yn y ffos, anniddos nerth,
Mewn galar serth y syrthiwch.

Dyma ichi'r pennill, ar "Greece and Troy" sy'n cloi *Pedair Colofn Gwladwriaeth*, gwaith saer (saer maen, fel mae'n digwydd) sicr ei lygad a'i law:

Wel, dyma'r dull oddi allan,
Mae'r pedwar pennaeth anian,
Fel pedair elfen gyfan yn eu gwaith;
Yr un gyffelyb arwydd, yw'r dyfnion bedwar defnydd,
Yng ngrym Cristnogol grefydd, ufudd iaith.
Corff dyn yw'r Ddaear ddiwad,
A'r Awyr yw'r anadliad, cynhyrfiad bywiol nerth,
A'r Tân yw'r gyfraith hynod, sy'n argyhoeddi o bechod,

A'r Dwfr yw'r Efengyl wiwnod werth.
Gan hynny mae gair yn dwedyd,
“Dewch bawb i'r dyfroedd hyfryd”,
Mae'r bywyd yma ar ben;
Er sôn am bob helyntion, adnabod ffyrdd ein calon,
Sydd reitia' moddion i ni, Amen.

O bob cerdd glo - wn i ddim a gytunwch â mi - mi fyddaf yn meddwl mai'r fwyaf ysgubol yw'r un ar ddiwedd *Pleser a Gofid*, yr anterliwt y mae Nia bellach yn dod i ben â'i hailolygu. Fe'i cyhoeddodd Twm hi ar wahân hefyd, fel baled, gydag amrywiadau bychain. Mae'n dweud rhywbeth am Twm, ac am ei gynulleidfa hefyd, ei fod yn medru dod â nhw i'r fan yma ar ôl yr hwyl a'r colbio a'r ffars. Cyfuniad o ffars a phregeth oedd yr anterliwt, ac mae'n amlwg fod y gynulleidfa'n derbyn y ddau. Mr Pleser y Ffŵl (Twm ei hun mae'n siŵr), sy'n canu, gan godi testun o lyfr Job:

Dyn anwyd i flinder dan boender di-baid,
Fel yr heda'r wreichionen i'r nen ar ei naid:
Gwagedd o wagedd, a llygredd sy'n llym,
A'r byd a'i holl dreigliad yn dwad i'r dim.

O'r pedair elfennau fe greai Dduw'n grych,
Fyd, a phob creadur a welir yn wych;
Felly mae diwedd holl agwedd byd llym,
Yn rhedeg i'w elfen, a'i ddiben i ddim.

O! fel mae troell natur tra eglur yn troi,
Damweiniau trwy arfaeth rhagluniaeth'n ymgloi;
Fel olwyn mewn olwyn manylaidd ei grym,
A'u troion cyfannedd yn diwedd i'r dim.

Mae sôn am hen dadau fel blodau fu o'r blaen,
Yn gefnog ardderchog, wŷr enwog o raen;
Y rheini trwy rinwedd oedd ryfedd o rym.
Er maint eu gogoniant, hwy ddaethant i'r dim.

Bu'n hynod frenhinoedd â'u bloedd yn dra blin,
Trwy rwysg a grymuster mewn trawster yn trin,
Yn filain ryfelwyr, trallodwyr tra llym,
A'u rhyfyg a'u mawredd yn diwedd i'r dim.

Er cryfder a balchder hoff wychder byd ffôl,
Ni welir fawr elw'r dydd heddiw ar eu hôl;
Monachlogydd a chestyll gorchestol eu grym,
Er cymaint y gorchwyl hwy gyrchwyd i ddim.

Nid oes i ddyn yma un rhodfa barhaus,
Ond poen a gofidiau trwy foddau trofaus:
Rhaid i ni gael cryfdwr creawdwr teg rym,
A greodd y cyfan yn ddoethlan o ddim.

Ni glywsom hysbysrwydd, dawn arwydd di-nag,
Fel 'roedd yn y dechrau'r ddaearen ddu wag,
Ac ysbryd Duw'n symud mewn llwyrfryd yn llym,
Ar wyneb y dyfroedd, ardaloedd o'r dim.

Rhaid felly'n cael ninnau â'n c'lonnau'n un clais,
'N afluniaidd wael anian wag druan rwyg drais;
A'r dyfroedd diafraid o'n llygaid yn llym,
Cawn ysbryd Duw'n gweithio pan ddelom i ddim.

Tra fo dyn yn gweled ei weithred yn wych,
A'i serch arno'i hunan mewn anian ddi-nych,
Ni ddichon gael bywyd o'r Ysbryd a'i rym,
Nes byddo i'w ddyn pechod ef ddarfod i ddim.

I'r dim fel plant bychain, heb bechod na chas,
Yn dlodion drylliedig, sychedig am ras,
I adnabod a charu gair Iesu'n gu rym,
Amen yn dragywydd, ni dderfydd ef ddim.

“If Love’s a Sweet Passion” yw’r gainc; ceir hi hefyd dan yr enw “Mwyneidd-dra”. Ers llawer blwyddyn ’rwyf wedi bod yn dyfalu sut mae’n mynd, ac ’rwyf wrth fy modd ei bod yn bosibl i Ffion a Nia roi rhai o’r penillion inni ar yr alaw.

Canwyd detholiad o’r penillion gan Nia, y cyntaf yn ddigyfeilant. Yna daeth Ffion i mewn ar y delyn.

“Dyn anwyd i flinder...”

John Thomas's Fiddle Manuscript

[National Library of Wales MS J. Lloyd Williams 39]*

Phyllis Kinney

Sometime in the first half of the eighteenth century a fiddler named John Thomas began to note a large number of tunes in a leather bound book. At some later time, perhaps early in the nineteenth century, it came into the possession of the cultured and musical Richards family of Darowen in Powys, from there to Principal J.H. Davies of Aberystwyth and from him to the editor of the *Journal* of the Welsh Folk-Song Society, John Lloyd Williams. The manuscript is now in the National Library of Wales as J. Lloyd Williams MS 39. Almost nothing is known of John Thomas, but the evidence of the manuscript shows that he was an educated man who could write creditably in Welsh and in English. To judge from his Welsh, he was probably a native of Powys, and a working musician from perhaps the 1720s through the 1750s.

Opposite the frontispiece, pasted in upside down, is an alphabetical index, torn and badly worn, of some fifty tunes. On checking John Thomas's page numbers with the National Library numbering it is clear that much of the manuscript is no longer there. For example, an 'Air by Mr. Handel' which according to John Thomas's index is on page 143 is now on folio 55. Even allowing for the difference between pagination and foliation it is obvious that much has been lost, but what remains comprises one of the most important musical manuscripts of eighteenth century Wales and gives an invaluable picture of the repertoire of a *professional* fiddler in Wales at this period. (I use the word 'professional' to describe performers who are paid for their services even if that is not their only way of earning a living).

* (*This paper was delivered at a conference convened by the Centre for Advanced Welsh Music Studies in Cardiff in October 1998.*)

On the frontispiece is the owner's name, John Thomas, and the date 1752, followed by a carelessly written list of tune-names, 'periwig laces', 'pudin pye', 'Racs o melo' etc., scribbled down in no particular order. The list continues for another page and is followed by sixteen pages 'am y bysgota', an essay about fishing, in which he discusses various types of fish and the manner of catching them. This is followed by nine tunes, quite carefully written out, including three minuets, a country-dance tune to be found in *Rutherford's Country Dances* [c.1756]; a salon song by William Boyce ['The Ravish'd Lover' ('Fanny Blooming Fair') c.1736], 'Sir Watkin's Jig' (probably referring to Sir Watkin Williams Wynn, the most powerful of the north Wales gentry), and a dance tune unusual in this collection for having a bass set to it. Almost all of John Thomas's tunes are written in the treble clef only.

These tunes are followed by a short dissertation on the elements of music, including the gamut, which may have been an attempt to write a manual in Welsh for the teaching of music. If so it is a pity it was not finished, for it was not until much later, at the end of the century, that the first book aiming to teach music through the medium of Welsh was published.

Then come the bulk of the tunes in John Thomas's manuscript. The first 40 are quite carefully written with attention to time signatures, rhythm and barlines, and usually with a key signature. They include music by John Baptist Granno, a well-known trumpeter of the period who also published a book of music for the violin in 1720, the Scots song, 'Through the Wood, Laddie' published in Scotland in 1725 and later in *A Collection of Welsh, English and Scotch Airs* by John Parry in 1761, more country-dance tunes, a Welsh piece: 'Bewmares march', an attempt at writing a Welsh tune with a bass line (only eight bars and a poor bass line), a carefully noted variant of 'Morfa Rhyddlan', and dances including minuets, hornpipes and rigadoons. Among these pieces is a minuet by Weidiman which is

quite demanding, with numerous trills, cross-string work and several places which call for moving into third position. It indicates that Thomas must have been a competent fiddler who could play classical music as well as country-dance tunes.

About page 30 (i.e. just under a third of the way through the manuscript) come five Welsh tunes, all of which can be found in other variants in Welsh collections. These are less carefully written, without key or time signatures, but nonetheless recognisable. The most interesting of these is one called ‘drygan [erddigan] troed tant’ which is related to variants published in *British Harmony* (1781, p. 14) and *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* (1784, p. 48) and may have a connection with ‘y ddigan tro r tant’ in the Robert ap Huw manuscript (see *Musica*, p. 109).

On pp. 36-40 John Thomas has written 31 tunes in an eccentric notation, a kind of musical shorthand, possibly his own invention. These tunes without key or time signature, rhythm signs, bar-lines, clefs or accidentals are impossible to read without another version of the same tune to act as a guide. I am indebted to Bethan Miles who provided the solution to the enigma of the notation. In the case of ‘Ar hyd y nos’ the task is relatively easy because mode and rhythm are known through the variant printed in *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* (1784, p. 56), and the notes themselves are comparatively easy to work out when it is realised that the lines represent lines **and** spaces. When another version of the tune is available for comparison it is usually possible to work out the musical line. John Thomas himself has more than one version of many of the tunes in his manuscript (for example, he notes three variants of ‘Morfa Rhyddlan’ in different parts of the manuscript) and there are versions in ordinary notation for 78 of the tunes in eccentric notation. But that leaves 55 tunes in the eccentric notation which present more serious problems. Occasionally the name will give a clue as to another source of the tune, as for example ‘Ar hyd y nos’ which was later

published in *Relicks*, or ‘Diniweidrydd’, a well-known ballad tune. Even so there are many tunes in this eccentric notation which still await a solution.

About halfway through the manuscript comes the only tune which has words written below the notes: ‘Fair Hebe I left with a cautious design To escape from her charms and drown ‘em in wine...’ It is a typical salon song and other examples of this type in the manuscript include ‘The Cuckoo’ [“When daisies pied...”] by Thomas Arne which was part of the incidental music in 1738 to a production of Shakespeare’s *As You Like It*. John Thomas’s salon music also included classical solos and he noted a number of pieces of Handel’s music, which was immensely popular in eighteenth century Britain: marches from *Rinaldo* and *Scipio*, a minuet from *Porus*, the chorus from *Atalanta*, and the Allegro from the Trumpet Suite in D of the *Water Music*, all performed between the years 1711 and 1736. There are 34 minuets in John Thomas’s manuscript, some by named composers such as Lully, Signior Arigoni, Signior Locatelli, M. Le claire and Weideman. There are also numerous marches and a gavotte as well as hornpipes, jigs, rigadoons, and reels.

Country dance tunes form a large part of the collection. I have traced over a hundred tunes in John Thomas’s manuscript to various country dance books and there are many more examples which appear to be dance tunes but which so far have not been traced. About 100 country dance books were published between 1651 and 1728 but only about half of these are extant. From 1728 to 1818 many more scores of dance books were published, containing hundreds of tunes, most of which were ephemeral. Sometimes tunes which were short-lived in England continued to be used in Wales and changed their names. Some titles were translated into Welsh so that ‘Follow my fancy’ became ‘Dilyn serch’ [*British Harmony*, 1781]; some acquired unrelated new names: ‘The Gun’ became ‘Tros y garreg’ [*Relicks*, 1784] and some changes occurred through mishearing or

misunderstanding the English title so that ‘Country Bumpkin’ became ‘Country boncun’ (or in Richard Morris’s 1717 manuscript ‘Contraboncin’).

So far John Thomas’s manuscript sounds more English than Welsh. Many of his tunes came from English country dance books, and he obviously played for the gentry. There are numerous minuets, classical tunes and pieces dedicated to the gentry and the nobility such as ‘Miss Cambilina’s delight’, ‘Lady Byron’s maggot’, ‘My Lord Gor’s minuet’ as well as ‘Sir Watkin’s Jig’, suggesting a select audience. But it is also obvious that Thomas performed for Welsh audiences of all classes. Well over a hundred tunes in the manuscript have Welsh names and represent various aspects of Welsh traditional music. In addition to Handel classics Welsh musicians played native music such as ‘Beddgelert’, ‘Breuddwyd Dafydd Rhys’ or ‘Conceit Arglwydd Strain’. In about 1726 came the first appearance of popular Welsh melodies in print. *Aria di Camera* contained 77 tunes most of which were Scotch and Irish but there were five Welsh tunes in the collection. Three of these appeared in later publications: ‘Welch Richard’ [‘Sweet Richard’], ‘Meillionen’ and ‘Morfa Rhuddlan’ and several variants of these tunes can be found in Thomas’s manuscript, not copied from *Aria di Camera*. Far more important is the first published book of Welsh music, *Antient British Music*. This appeared in 1742, during the period when it may be assumed that Thomas was working as a professional fiddler. Twelve of the 24 pieces in the book can be found in Thomas’s manuscript but in different arrangements. One of these is almost identical to the printed version but the other eleven while related to the tunes in *ABM* are not copied from them. They are in different keys, with different ornamentation, and some are set down in his eccentric notation. It is quite possible that he never saw the book himself; it was written for the harp, published in London and extremely expensive. On the other hand numerous members of the Welsh gentry were among the subscribers and it is possible that he may have seen *ABM* when he was playing

for them. But at least 19 of the tunes in *ABM* were known in Wales before it was published in 1742 and there must have been a good deal of copying of the versions of other performers. This would account not only for the variety of variants of the same tune but also the variety of spelling of the various tune-names.

Of more interest, perhaps, are the tunes used for singing Welsh ballads and songs in the *anterliwt*. In general Welsh ballads of the eighteenth century were not narrative poems in short regular stanzas but frequently on unusual metrical patterns which gave poets the opportunity to display their verbal talents in *cynghanedd*. Many sixteenth and seventeenth century tunes in irregular metres from the period of the broadside ballad appealed to Welsh poets and the fact that so many of these, such as ‘Amaryllis’ (Amor Elis); ‘Gerard’s Mistress’ (Charity Mistress/Elusenni meistress) or ‘About the banks of Helicon’ (Y fedle fawr) appear in John Thomas’s manuscript indicate that he played for singing as well as for dancing. Many Welsh tunes such as ‘Y Cowper mwyn’, ‘Diniweidrwydd’, ‘Heavy heart’ or ‘Sweet Richard’ were equally popular with Welsh poets from the late seventeenth century onwards and the same tunes were used for the words to *plygain* carols, secular ballads or songs in the *anterliwt*.

There can be very little doubt that John Thomas played the fiddle for the *anterliwt*, which attracted a very different audience from those who listened to Handel’s classical music. These rustic dramas travelled round the countryside performing wherever there was an audience and usually music played a prominent part, with songs set to tunes which tended to be popular and well-known to the audience. A number of manuscripts of *anterliwtiau* survive from the period when the genre was popular and quite often they indicate that the musician accompanying them was a fiddler. The harp, traditionally the national instrument of Wales, is not specifically mentioned though it may have been used. One dissertation on the *anterliwt* lists 119 different

tunes used in the plays which have survived and it is significant that 57 of them are in John Thomas's manuscript. They include 'Sbone bogel', one of the phallic dances which often played a prominent part in the *anterliwt*. I am grateful to Stephen Rees for pointing out that the tune John Thomas sets down under that name is the old sixteenth century favourite: 'Pepper is Black'.

A tune in John Thomas's manuscript which throws an interesting light on eighteenth century music in Wales is 'Mwynen Mai', a tune connected to the May carols which were an important aspect of Spring celebrations, including especially dancing which continued to take place throughout the summer months. A fiddler like John Thomas would have been a welcome participant. In a letter to Edward Jones, 'Bardd y Brenin' from William Jones, Llangadfan in the National Library of Wales (NLW MS171E), there is a variant of the same tune which includes the words to be sung to it as well as a note indicating where the words came in and where the instrument played alone. It would appear that both fiddles and harps were used for outdoor carols, even in the winter: in *Blodeu-gerdd Cymry* (1759) a carol is noted as to be sung 'by two men and two boys with the harp and the fiddle'. So in addition to all his other musical activities it is quite possible that John Thomas went about with his fiddle on May morning, playing for his fellow-countrymen.

It is interesting to compare the manuscript of John Thomas (probably of Powys) dated 1742/1752 with that of another fiddler, Morris/ Maurice Edwards (probably of Anglesey) dated between 1776 and 1779. They have about 30 tunes in common, but their collections are very different, and they probably played to different audiences. I am indebted to Dafydd Wyn Wiliam for the information in the Bodorgan papers that on October 11, 1773 Maurice Edwards was paid two guineas for his music for a fortnight, showing that Edwards also played for the gentry. But Edwards's collection containing only some 165 tunes is much smaller than Thomas's and much more

Welsh. There are very few of the English tunes that so intrigued young Richard Morris in 1717 and were bread and butter to John Thomas, and there are none of the classical pieces by Handel and others. Neither are there any indications that he might have played for the *anterliwt*. Edwards appears to be a more careful notator of music in the oral tradition, that is, tunes which have been taken down from a performer and have not been copied from a book. Where John Thomas is careless with his placing of anacruses and often gets the rhythm wrong if he is noting something from oral tradition, Morris Edwards is generally correct and this makes his manuscript easy to follow.

Music manuscripts for this period are quite rare in Wales and these two cast an interesting light on Welsh music in the eighteenth century since with the exception of *Aria di Camera*, all the music books published before 1800 were put together by harpists. Although the harp collections and the fiddle manuscripts have many tunes in common, aspects of Welsh music revealed by the fiddle manuscripts, especially that of John Thomas, shed a new light on music in Wales.

Much more work needs to be done on John Thomas's manuscript, including information on his background and period. There are very few hints in the manuscript itself. He put the date 1752 at the beginning of his book, and pasted to the back cover is a sheet from an almanac dated 1742. Furthermore there is some internal evidence to be found in the dates of some of the music. 'Blooming Fanny' (correctly called 'The Ravished Lover') was published in 1736; 'Brave Admiral Vernon' and 'Porto Bello Siege' both undoubtedly refer to the siege of Porto Bello in 1739. 'Through the wood, laddie' was first published in Scotland in 1725, and published in Wales in 1761 (see *A Collection of Welsh, English and Scotch Airs*). 'Ar hyd y nos' first appears as a tune-name in an *anterliwt* of c.1740. Many of the dance tunes in the manuscript which were *identical* to printed versions came from country dance collections of the 1730s; and as a

little bit of negative evidence, neither of the two ballad/*anterliwt* tunes which can be dated to the period after 1760, notably 'The Belle Isle March', celebrating a battle in 1763 and 'Heart of Oak', published in 1759, can be found in the manuscript.

John Thomas's collection will repay much more detailed study - I have just scratched the surface. I am delighted to know that a graduate student at Bangor, Cass Meurig, who is herself a fiddler, is going to write a Ph.D on this manuscript. It will be an important contribution to the study of Welsh music.

RHAGOR AM GANU I'R YCHEN: TYSTIOLAETH DEWI HARAN

Huw Walters

Ysgrifennwyd cryn dipyn dros y blynyddoedd am yr arfer o ganu i'r ychen ym Morgannwg, arfer a barhaodd, mae'n debyg, tan tua saithdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwnaeth lolo Morganwg gasgliadau helaeth o dribannau ac alawon a genid i'r ychen pan oedd y rheini wrth eu gwaith yn y rhych.¹ Bu Cadrawd yntau'n casglu deunydd tebyg,² a chroniclodd D. Rhys Phillips enghreifftiau o dribannau cathreiwyr Cwm Nedd.³ Yn fwy diweddar cafwyd astudiaeth drylwyr o'r arfer gan Ffrancis Payne,⁴ a chasglodd Tegwyn Jones saith ar hugain o dribannau aradwyr Morgannwg yn ei ddetholiad yntau.⁵ Ym 1986 cyhoeddwyd astudiaeth o alawon y cathreiwyr gan Phyllis Kinney a Meredydd Evans,⁶ ac yna ym 1996 cafwyd cyfraniad gwerthfawr gan Allan James sy'n dibynnu cryn dipyn ar dystiolaeth a gafwyd ar lafar ym Morgannwg yn ystod tridegau'r ganrif hon.⁷

Digon prin, at ei gilydd, yw'r disgrifiadau a gadwyd inni o'r cathreiwyr wrth ei waith, ond ymddangosodd llythyr byr a diddorol ar y pwnc yng ngholofnau *Y Gwladgarwr*, y newyddiadur wythnosol a gyhoeddwyd yn Aberdâr, ar 13 Tachwedd 1869. David Evans, o Bontypridd ar y pryd, oedd y llythyrwr, yntau, fel yr awgryma'i ffugenw - 'Dewi Haran', yn frodor o Lanharan ym Mro Morgannwg lle ganwyd ef ym 1812, heb fod nepell o Frynewtyn, Tre-os ym mhlwyf Llanganna, cartref John Howell, tad y Deon Howell ('Llawdden'). Daeth Dewi Haran a Llawdden dan ddylanwad Evan Davies ('Ieuan Myfyr' neu 'Myfyr Morganwg') yn ystod eu hieuenctid, a pharhaodd eu cyfeillgarwch am oes gyfan. Cyfeiria'r Deon at y Myfyr fel 'Gamaliel' mewn llythyr o'i eiddo at Dewi Haran, dyddiedig 11 Rhagfyr 1883, a dyma'r pryd, mae'n debyg, y dechreuodd Dewi gyfrannu cerddi a chaneuon o'i waith i

golofnau barddol gwasg gylchgronol y cyfnod⁸. Yr oedd iddo le amlwg hefyd ymhlith mân brydyddion Morgannwg a gyfarfyddai o bryd i'w gilydd yn nhafarn y Fair Oak ar Waun yr Eirw.⁹

Bu Dewi Haran yn ffermio tir fferm Coedbychan yn Llanharan am rai blynyddoedd, ac oddi yno y priododd â Mary, merch William a Margaret Paul o Lanharan. Un o ferched John a Rebecca Miles, eto o Lanharan, oedd Margaret Paul, a'i mam hithau yn un o ferched Lewis Hopkin (?1708-71), y bardd o Landyfodwg, ac awdur *Y Fel gafod* a olygwyd gan John Miles, ei fab-yng-nghyfraith ac un o gyfeillion Iolo Morganwg, ym Merthyr Tudful ym 1813.¹⁰ Bu farw Mary, gwraig Dewi Haran yn gynnar ym 1847, gan adael tri o blant, ac mae'n fwy na thebyg mai yn fuan wedyn y gadawodd Dewi y Coedbychan a symud i Bontypridd.¹¹ Yno yr ymsefydlodd mewn busnes fel arwerthwr, prisiwr a stiward tir yn Heol Taf. Erbyn hynny roedd tref Pontypridd wedi ennill safle iddi ei hun fel un o brif ganolfannau masnachol y cymoedd, ac yma y daeth Dewi yn aelod blaengar o 'Glic y Bont', y gymdeithas farddol fywiog yr oedd prydyddion fel Myfyr Morganwg, Dewi Wyn o Eswyllt, Glanffrwd, Brynfab a Charnelian ymhlith ei haclodau.¹² Medd Brynfab wrth goffâu'r dyddiau dedwydd hynny yn swyddfa Dewi Haran:

Yr oedd ei swyddfa yn Heol Taf yn 'babell y cyfarfod' i bob dosbarth o ddynion, - o brynwyr a gwerthwyr gwartheg i feirdd cadeiriol. Nid oedd un bardd yn cyniweirio heibio ei swyddfa heb alw i fewn i gael sgwrs am helynt y byd barddol. Nid yn unig yr oedd y swyddfa yn gynullfan i feirdd y Bont, ond yr oedd beirdd yr ardaloedd cylchynol yn galw gydag ef ar ddiwrnod marchnad. Nid cynt nag y byddai bardd â'i big drwy'r drws, nag y byddai Dewi yn taflu ei ysgrifell a'r papurau o'r neilltu ac yn estyn cadair a phibell iddo. Yno y gwelais Lew Llwyfo gyda'i flwch snisin yn gwneud cam â'i drwyn urddasol, ac yno hefyd y bûm yn cydysmygu ag Islwyn

nes oedd y lle fel anadl coelcerth. Ni fu y fath Sanhedrin farddol mewn man o fyd â swyddfa Dewi Haran, ac eithrio efallai, siop Dewi Alaw yn yr un heol. Pan ddeuai cyfeillion i edrych am feirdd y Bont ar ddydd Mercher neu nos Sadwrn, yn y ddau le hynny yr oedd dod o hyd iddynt.¹³

Golygodd William Thomas ('Glanffrwd'), yr offeiriad llengar o Lanwynno, gyfrol o gynhyrchion barddol Dewi, a'i chyhoeddi wrth y teitl *Telyn Haran*, o wasg Benjamin Davies ym Mhontypridd ym 1878. Bu farw'r prydydd saith mlynedd yn ddiweddarach ar 6 Gorffennaf 1885.¹⁴

Bu Dewi, yn ôl ei dystiolaeth ei hun, yn aredig gyda'r ychen, a hynny mae'n debyg yn nhri a phedwardegau'r ganrif pan ffermiai dir y Coedbychan, a cheir tinc hiraethus am y dyddiau hynny yn ei lythyr i'r *Gwladgarwr*. Gwiw inni gofio fod hwn yn gyfnod o newid mawr ym Morgannwg gyda diflaniad y diwylliant gwledig a'r hen ffordd o fyw - ffaith a bwysleisir ym mharagraff olaf ei lythyr. Fel yr eglurodd Allan James yn ddiweddar: 'yr oedd arwyddion fod natur y gweithlu yn newid a bod pwyslais bellach ar ddiwydiannau na fyddai hen gathreiwyr y Fro wedi breuddwydio amdanynt'.¹⁵ Eithr gadawn i Ddewi Haran adrodd yr hanes:

YR YCHAIN YN AREDIG

Mr Gol. - Y mae rhyw ddeugain mlynedd wedi myned heibio er pan fu'r ysgrifenydd yn gyru yr ychain i aredig. Yr hyn a achlysuodd ysgrifeniad y llinellau canlynol oedd clywed teithiwr masnachol (*commercial traveller*), Mr Morgans, genedigol o Sir Drefaldwyn, ond yn byw yn awr yn Merthyr, yn adrodd yr hanesyn:-

'Yr oeddwn', meddai, 'yn myned o'r Bontfaen i Benybont ar Ogwy un o'r dyddiau diweddaf, a phan oeddwn ar y Fildir

Aur, clywn ganu perseiniol ar faes cyfagos.¹⁶ Gorchymynais i'r cerbydwr sefyll, ac i lawr â mi, ac at y gwrych sy'n rhannu'r maes a'r mynydd, sef y Filldir Aur, a gwelsom chwech o ychen yn aredig, a dyn ieuanc yn eu gyru â rhyw ffon hir yn debyg, feddyliwn, i ffon Iolo Morganwg, a swmbwl yn ei blaen. Y mae'r ych, druan, yn gwybod beth yw swmbwl yn y cnawd ar brydiau. Yn awr, y cythriwr, fel ei gelwid yn y dyddiau gynt, sef y dyn ieuanc a nodasom â'r ffon hir ar ei ysgwydd yn cerdded gyda'r urdd, ac yn canu'r tribanau canlynol:

Mi welais ddwy lygoden
Yn llusgo *coach* yn llawen,
O Lanelli i Gaerdydd,
A llestri pridd a halen - a ho.¹⁷

Mi wela'r môr a'r mynydd,
Mi wela'r *forest* newydd.
Mi wela gastell mawr Penllin
Lle'r yfir gwin ysblenydd - a ho.'

Yn ôl darluniad fy hysbysydd, a'r lle y gwelodd yr olygfa siriol, tebyg mai ar dir fy hen gyfaill serchog, Mr Thomas Thomas, Brocastell, yr hwn nad yw yn ail i neb fel amethwr drwy fro fras Morgannwg, y gwelodd y teithiwr yr hen arferiad ysgrythyrol, sef aredig ag ychen.

Y mae'n gofus genyf yn awr weled y Parch. Wm Evans, Tonyrefail, 34 o flynyddoedd yn ôl, yn gyru yr ychain, a'i fab hynaf, Mr David Evans, o *Docks* Caerdydd, yn dal yr aradr, a'r pregethwr yn canu y triban canlynol fel yr eos, oblegyd gŵyr pawb trwy dde a gogledd am lais y 'Delyn Arian':

Mae'n foreu *fine* rhagorol,
A'r haul fel seren siriol,
A phob peth yn hardd ei lun,
Ond bywyd dyn anynol - a ho.

Rhyfeddol y cyfnewid sydd wedi cymeryd lle ar y byd er y peth oedd 45 mlynedd yn ôl, pan oedd y maesydd yn un *harmony* fawr gan leisiau'r cythreuwyr. Gwelais orfod gollwng yr ychain yn rhydd am 11 y boreu gan boethder yr haul, a'u dal am 4 yn y prydawn, ac aredig nes y byddai'r haul wedi soddi yn môr y gorllewin. Yr oedd rhywbeth mor naturiol yn y dull i'r llanciau fyddai'n dilyn yr ychen a'r aradr, fel os dygwydd i un ohonynt wedi ei wrthod gan ei gariad nos Sabboth, byddai ynteu ddydd Llun yn tywallt ei ddigofaint arni yn ei benillion wrth yr ychain, pan yn ymdrechu cuddio ei ofid yn y dull a ganlyn:

Mi fynaf eto ddial
Ar ferch a fu mor wamal,
Yn dewis bachgen ieuanc, syth
Na allasai byth ei chynnal - a ho.

'Rwyf fi yn sefyll arian,
Yn gallu myn'd i bobman.
Ti gollaist, ferch, pan troist fi bant
Mae genyf gant fy hunan - a ho.

Yna y dyn ieuanc oedd wedi ei droi i bant y nos Sabboth
flaenorol yn ei ateb o faes cyfagos:

Nid ydyw'th arian, Ianto,
Fawr beth yng ngolwg Gweno,
Rhaid gwasgu a sibrwd yn ei chlust,

Mae'r byd yn dyst o hono - a ho.
Rhyw ddwli ydyw siarad
Am arian, ddyn anynad;
Os ydwyd ti â llogell lawn,
'Rwy' finau'n llawn o gariad - a ho.

Dyna fel y treuliai bechgyn Morgannwg yn neillduol, eu dyddiau ar y maesydd; ond yn awr i grombil y ddaear â hwy cyn gynted ag y delont i oed. Llawer un a fagwyd i ddilyn yr aradr a'r ych sydd wedi myned yn aberth i'r danchwa ofnadwy.

Dewi Haran.

Pontypridd.

Mae'r cyfeiriad at William Evans (1795-1891) o Donyrefail yn ddiddorol. Ganwyd ef yn ffermdy Garthgraban-fach yn Llantrisant a daeth yn un o hoelion wyth y Methodistiaid Calфинаidd ym Morgannwg. Ond odid mai ef ac Edward Matthews o Ewenni a roes sylfaen gadarn i Fethodistiaeth Galфинаidd ym Morgannwg yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Crybwyllir ei ddoniau fel cathreiwyr yn y cofiant a luniwyd iddo gan ei wŷyr, y Parchedig William Evans o Ddoc Penfro. Medd ef:

Yr oedd yn arferiad yr adeg hono, a pharhaodd am lawer o flynyddoedd wedi hyny, i aredig gydag ychain. Yr oedd yn rhaid cael arweinydd, a'i brif waith ydoedd canu i'r ychain. Gwnaeth William Evans lawer o'r gorchwyl hwn, ac yr oedd yn ei gyflawni yn ddoniol a difyrus iawn. Yr oedd yr anifeiliaid yn cael eu gwneuthur yn hollol foddus pan yn tynu yr aradr gan ei lais melodaidd a'i acenion melus. Fel rheol pethau o natur ysgafn, os nad o duedd isel, a genid i'r ychain wrth eu harwain o flaen yr aradr. Ond byddai ei ganiadau ef bob amser o nodwedd foesol, ac yn hollol bur o ran iaith. Yr

unig enghraifft sydd yn cael ei chofio o'r pethau a genid felly ganddo ef sydd fel hyn:-

Mae heddyw yn deg rhyfeddol,
A'r haul fel seren siriol,
A phob peth sydd lân ei lun
Ond calon dyn annuwiol.¹⁸

Sylwer bod y fersiwn o'r triban a geir yn y *Cofiant*, yn cyfateb, fwy neu lai, i'r fersiwn a ddyfynnir gan Ddewi Haran, ar wahân i'r llinell olaf. 'Ond bywyd dyn *anyinol*' a geir gan y naill, eithr '*Calon* dyn *annuwiol*' sydd gan y llall. Prin fod hyn yn ddamweiniol pan gofiwn sylwadau diddorol Allan James mewn erthygl ddiweddar o'i ciddo, lle dangosodd i gasglyddion a golygyddion caneuon gwerin oes Victoria fynd ati'n fwriadol i ddoctora a diwygio'r testunau ar gyfer eu cyhoeddi.¹⁹ Mae llinell fel honno yn taro i'r dim i gathreiw'r o weinidog Methodist.

-
1. Griffith John Williams, *Iolo Morganwg* (Caerdydd, 1956), 61-5.
 2. Thomas Christopher Evans, 'Ploughing with oxen in Glamorgan', *Red Dragon*, 3 (1883), 136-40, 430-34. Adargraffwyd yn rhannol yn *Canu Gwerin*, 14 (1991), 30-9. Gweler hefyd ei draethawd arobryn 'The Folklore of Glamorgan', yn E. Vincent Evans, gol., *Cofnodion a chyfansoddiadau buddugol Eisteddfod [Genedlaethol] Aberdâr, 1885*, (s.l., 1887), 187-9.
 3. D. Rhys Phillips, *A History of the Vale of Neath* (Swansea, 1926), 592-4.
 4. Ffrancis G. Payne, *Yr Aradr Gymreig* (Caerdydd, 1954), 188-91.
 5. Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg* (Llandysul, 1976), [130]-5.
 6. Phyllis Kinney a Meredydd Evans, 'Canu'r ychen', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1986, 99-113.
 7. Allan James, 'Tribannau gwerin Morgannwg', *Canu Gwerin*, 19 (1996), 6-21.
 8. Llsg. LIGC 6245B. Gweler hefyd Roger Lee Brown, *David Howell. A pool of spirituality: a life of David Howell (Llawdden)* (Denbigh, 1998), 19, 258. Canodd Dewi Haran 'Chwech englyn ar symudiad y

- Parch. D. Howell (Llawdden) o'r gogledd i Gaerdydd', ac fe'u cyhoeddwyd yn *Y Cylchgrawn*, 3 (Medi 1864), 269.
9. Gweler James Ednyfed Rhys ('Ap Nathan'), 'Bywyd llenyddol Pontypridd a'r cylch yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg', *Llsg. IJGC Eisteddfod Genedlaethol Cymru*, Aberpennar, 1946 (rhif 13), 42-4.
 10. Lemuel J. Hopkin-James ('Hopcyn'), *Hopkiniaid Morganwg* (Bangor, 1909), 379-80.
 11. Cofnodir marwolaeth Mary yn *Y Diwygiwr*, 12 (Mehefin 1847), 195.
 12. J. Dyfnallt Owen, 'Awen y Rhondda gynt: "Clic" y Bont', yn *Rhamant a rhyddid* (Llundain, 1952), 57-63.
 13. Thomas Williams ('Brynfab'), 'Beirdd y Bont: Dewi Haran', *Tarian y Gweithiwr*, 7 Mai 1914, 3.
 14. *Tarian y Gweithiwr*, 9 Gorffennaf 1885, 1; *Baner ac Amserau Cymru*, 15 Gorffennaf 1885, 3.
 15. Allan James, 'Y Triban, y cathreiwyr a'r hynafiaethydd', *Y Traethodydd*, 151 (Gorffennaf 1996), 136-59, [144]. Gweler hefyd Morfydd Owen, 'Rhagymadrodd i Lanwynno Glanffwrdd', yn J. E. Caerwyn Williams, gol., *Ysgrifau beirniadol, VI* (Dinbych, 1971), 160-75.
 16. Ym mhlwyf Tregolwyn, cantref Ogwr.
 17. Hwn yw'r unig driban yn llythyr Dewi Haran a gynhwysir yng nghasgliad Cadrawd, *op.cit.*, 192, a cheir amrywiadau arno yng nghasgliad Tegwyn Jones, *op.cit.*, 171.
 18. William Evans, *Cofiant y Parchedig William Evans, Tonyrefail* (Newport, 1892), 24. Yr oedd Clara Novello Davies, y gantores a mam Ivor Novello, yn orwyr i'r hen bregethwr.
 19. Allan James, 'Tribannau gwerin Morgannwg', *Canu Gwerin*, 19 (1996), 6-21.

GOLWG AR ‘HEN ALAW’

Huw Williams

Un o nodweddion amlwg y Cymanfaoedd Canu Undebol hynny a gynhelid yn y Felinheli yn Arfon am dair blynedd yn olynol yn ystod y cyfnod 1921-23 oedd fod y flaenoriaeth yn cael ei rhoi i amryw o emyn-donau oedd wedi cael eu cyfansoddi gan gerddorion lleol. A chymaint oedd y bri ar ganu mawl yn yr ardal yn ystod y dauddegau cynnar fel bod pawb a fu’n gysylltiedig â’r Gymanfa, ar wahân i’r arweinydd gwadd, yn enedigol o’r Felinheli, a’r mwyafrif ohonynt yn gerddorion cwbl hunanaddysgedig.

Arweinydd cerddorol y Gymanfa olaf a gynhaliwyd yng nghapel Moriah (A), 7 Gorffennaf 1923, oedd R. D. Griffith, Bethesda (Hen Golwyn yn ddiweddarach), awdur y gyfrol *Hanes Canu Cynulleidfaoel Cymru* (1948), gyda Robert Williams, Llys Myfyr, y Felinheli - gŵr a fu’n weithgar iawn ym maes caniadaeth y cysegr yn yr ardal am flynyddoedd lawer - yn arwain y rihyrsals.

Un peth yn arbennig yn nhaflen Cymanfa 1923 sy’n tynnu sylw yw ‘Hen Alaw’ ar fesur 87.87.47, yn dwyn yr enw ‘Tan-y-maes’, ac wedi ei gosod ar gyfer yr emyn ‘Ti wy’n mofyn Arglwydd, tyred’ (Pantycelyn). Fel y sylwir oddi wrth y copi, mae’r alaw hon yn gwbl nodweddiadol o amryw o emyn-donau a arddelid yn y cysegr rhyw ganrif a hanner yn ôl, ac yn ffitio i ddosbarth o alawon yr arferai D. Emlyn Evans eu galw’n ‘asynnod gwylltion’ ein canu cynulleidfaoel. Y mae ei harddull yn ein hatgoffa o ‘ffurf gyntefig’ ‘Y Delyn Aur’ ar y mesur, a gyhoeddwyd gyntaf ym 1879.

Dywedir o dan y copi fod yr alaw fel y cyhoeddwyd hi yma wedi ei chynganeddu gan Robert Williams (uchod), ac mai eiddo William Thomas, Llandegfan, Môn, oedd yr hawlfraint, beth bynnag yn union a olygid wrth hynny ym 1923! Yn dad i’r diweddar T.

Tan y Maes

Tan y Maes.

DOH C.

87.87.47.

HEN ALAW.

l	:se	l	:m	l	t	d'r	m'	r'	d'	t	l	t	d'r	m'	r'	m'	r'	d'	t	l	:-
m	m	m	m	r	d	r	m	m	m	m	:-s	s	:-f	m	m	r	d	:-			
d'	t	l	:se	l	:-t	d'	t	l	:se	d'	t	l	t	d'	:-l	l	:se	l	:-		
l	m	r	d	t	l	:-l	l	:se	l	m	l	se	l	s	d	:-r	m	m	l	:-	

-) Ti wy'n mofyn Arglwydd, tyred, Yn mhob tra-llod bydd gerlaw,
 :) Wrth fy nghuro gan y gwyntoedd, Wrth fy maeddu gan y don

<u>l</u> <u>se</u> <u>l</u> <u>t</u> <u>d'</u> <u>t</u> <u>d'</u> <u>r'</u> <u>m'</u>				<u>r'</u> <u>d'</u> <u>d'</u> <u>t</u>				:	<u>m'</u> <u>r'</u> <u>d'</u> <u>t</u>				:	<u>m'</u> <u>r'</u> <u>d'</u> <u>r'</u>			
<u>m</u> <u>m</u> <u>m</u> <u>m</u>				<u>m</u> <u>d'</u> <u>t</u> <u>l</u> <u>l</u> <u>se</u>				:	<u>d'</u> <u>t</u> <u>l</u> <u>se</u>				:	<u>m</u> <u>:-</u> <u>s</u>			
:				:				:	<u>d'</u> <u>t</u> <u>l</u> <u>se</u>				:	<u>d'</u> <u>t</u> <u>m'</u> <u>r'</u> <u>d'</u> <u>t</u> <u>l</u> <u>t</u>			
:				:				:	<u>m</u> <u>r</u> <u>d</u> <u>t</u> <u>l</u>				:	<u>l</u> <u>m</u> <u>d'</u> <u>t</u> <u>l</u> <u>se</u> <u>l</u> <u>s</u>			

Dilyn fi 'rwy'n ofni yma Dilyn, dilyn, dilyn, dilyn,
 Wrth fy nryllio yn erbyn creigiau Blinais, blinais, blinais blinais,

$m', r', m', r' d' : t$	$l :- - :$	$l, se : l, t d' : d'$	$d', t : d', r' m' : m'$
$s :- f m : r$	$d :- - :$	$m : m m : m$	$m :- s s : s$
$d' :- l l \underline{l, se}$	$l :- - :$	$: d', d' : d', d'$	$: d', d' : d', d'$
$d :- r m : m$	$l :- - :$	$: l, l : l, l$	$: d, d : d, d$

fi, 'rwy'n ofni draw
 ar y ddaear hon

Dan Dy aden, Dan Dy aden
 O! am ddyddiau, O! am ddyddiau,

<u>m</u> ': <u>r</u> ': <u>d</u> ': <u>t</u> <u>l</u> ': <u>t</u> ': <u>d</u> ': <u>r</u> ': <u>m</u> '	<u>r</u> ': <u>d</u> ' <u>t</u> :-	<u>m</u> ': <u>r</u> ': <u>d</u> ': <u>r</u> ' <u>m</u> ': <u>r</u> ': <u>m</u> ': <u>r</u> '	<u>d</u> ' <u>t</u> <u>l</u> :-
<u>M</u> i ed - <u>r</u> ych-a'n	wyneb ll <u>u</u>		
<u>s</u> f : <u>m</u> : <u>r</u> <u>d</u> : <u>r</u> : <u>m</u> :	<u>m</u> : <u>m</u> <u>m</u> :-	<u>m</u> :- <u>s</u> : <u>s</u> :- <u>f</u> : <u>m</u> <u>m</u> : <u>d</u> :-	
<u>d</u> ': <u>t</u> ': <u>l</u> ': <u>s</u> <u>l</u> <u>l</u> : <u>l</u> :- <u>l</u>	<u>s</u> e : <u>s</u> e : <u>l</u> <u>s</u> e :-	<u>d</u> ': <u>t</u> ': <u>l</u> ': <u>t</u> <u>d</u> '	<u>l</u> <u>s</u> e <u>l</u> :-
<u>d</u> ': <u>s</u> ': <u>l</u> ': <u>m</u> <u>f</u> : <u>f</u> : <u>m</u> : <u>r</u> : <u>d</u>	<u>t</u> ': <u>t</u> ': <u>l</u> ': <u>d</u> <u>m</u> :-	<u>l</u> ': <u>s</u> e : <u>l</u> ': <u>s</u> <u>d</u> :- <u>r</u> : <u>m</u> : <u>m</u> <u>l</u> :-	

Mi edrycha, Mi edrycha'n wyneb llu Mi edrych-a'n wyneb llu.
 Pan ddarfyddo, Pan ddarfyddo pechu'n lân Pan ddarfyddo pechu'n lân.

(Copyright gan Mr. William Thomas, Llandegfan.
 Cynghanedd gan Mr. R. Williams, Port Dinorwic.)

Hywel Thomas (Gwalchmai a Chaergybi) - un o brifathrawon gweithgar Môn a chwaraeodd ran bwysig yn natblygiad Eisteddfod Môn a'r Eisteddfod Genedlaethol mewn blynyddoedd diweddar - bu William Thomas yn fawr ei sêl gyda chanu mawl, ac yn weithgar dros amrywiaeth o fudiadau ac achosion da ym Môn am gyfnod maith.

Gan nad oeddwn yn gyfarwydd â'r alaw, euthum heibio i Miss Dilys E. Williams - merch i Robert Williams (yn byw yn 'Llys Myfyr', 52 Heol Bangor, y Felinheli) ym mis Mawrth 1975 i'w holi yn ei chylch, a chael mwy nag a ddisgwyliais o'i hanes.

Ar y pryd, roedd ym meddiant Miss Williams (a fu farw 28 Ebrill 1997), gopi o lythyr dyddiedig 17 Hydref 1922 wedi ei anfon gan William Thomas, Rhos Bach, Llandegfan, at John Williams, ei hewythr, yn nodi cefndir y gerddoriaeth. Yn hwnnw, dywedai William Thomas ei fod yn cofio clywed ei rieni'n canu'r 'Hen Alaw' hon, a'u bod hwy wedi ei dysgu wrth glywed tad un ohonynt a William Owen, Prysgol (1813-93) - awdur y tonau 'Prysgol', 'Bryn Calfaria' a 'Deemster' - yn ei chanu. Ni chafodd yr alaw erioed mo'i hanrhydeddu mewn unrhyw gasgliad cyn ei chynnwys yn nhaflen Cymanfa Ganu Undebol y Felinheli ym 1923, meddai, ac awgrymodd ei galw wrth yr enw 'Tan-y-maes' ar ôl enw capel y Methodistiaid Calfinaidd yn y Felinheli lle'r addolai'r ffyddloniaid ym mhen gorllewinol y pentref, cyn codi capel Bryn Menai, addoldy a gaewyd ym 1996, ac sydd bellach wedi cael ei addasu'n dri thŷ.

Oherwydd cysylltiadau diddorol yr alaw - yn enwedig â cherddor amlwg o'r ganrif o'r blaen fel William Owen, Prysgol - byddai'n ddiddorol gwybod a oedd iddi boblogrwydd ar raddfa eang, ai ynteu a yw'n enghraifft o 'Hen Alaw' a arddelid ar un adeg mewn rhai cylchoedd ym Môn ac Arfon yn unig?

ARIA DI CAMERA: RHAI SYLWADAU

Huw Williams

Un o'r casgliadau cynharaf - a'r prinnaf erbyn heddiw mae'n debyg - sy'n cynnwys alawon Cymreig yw *Aria di Camera...* neu a rhoi iddo ei deitl llawn, *Aria di Camera: being a choice collection of Scotch, Irish & Welsh Air's for the Violin and German Flute, By the following Masters. Mr Alex: Urquhart, of Edinburgh, Mr Dermt. O'connar, of Limerick. Mr. Hugh Edwards, of Carmarthen.* Fe'i cyhoeddwyd yn Llundain heb ddyddiad, ond tua 1727 fe dybir, ac ymysg yr alawon - cyfanswm o 75 ohonynt i gyd - ceir pump o alawon Cymreig, sef 'Welch Richard', 'Welch Morgan', 'Meillionen o Feriony'dd', 'Morva Ryddlan', a 'North Welch Morris'.

Rhyw bymtheng mlynedd ar ôl cyhoeddi'r *Aria...* (sef yn 1742) pan ymddangosodd y casgliad argraffedig cyntaf i gynnwys alawon Cymreig yn unig, sef *Antient British Music...* yn dwyn enwau John Parry, Rhiwabon, ac Ifan Wiliam, y telynor o Langybi, fe haerwyd ar wynebdden y gyfrol nad oedd yr un o'r dau ddwsin o alawon a gynhwyswyd yn y casgliad wedi gweld golau dydd yn flaenorol. Ond gan fod ynddi dair alaw a oedd eisoes wedi ymddangos yn yr *Aria...* (sef 'Welch Richard', 'Meillionen o Feiriony'dd' a 'Morva Ryddlan'), mae'n amlwg na wyddai dau olygydd y casgliad am fodolaeth yr *Aria...* a'i rhagflaenodd. Heblaw hyn, roedd rhai alawon unigol craill yng nghasgliad John Parry ac Ifan Wiliam wedi eu cyhoeddi cyn ymddangosiad yr *Aria...* yn rhai o weithiau Playford a Saeson craill - ffaith na wyddai'r ddau Gymro arloesol amdani, neu ynteu iddynt ddewis ei hanwybyddu.

Bu rhai'n gofyn dros y blynyddoedd tybed sawl copi o *Aria di Camera...* sydd wedi ei ddiogelu, neu'n fwy penodol ymhle tybed y mac copïau o'r gwaith hwnnw y gellir ymgynghori â hwy heddiw? Yn ôl y gyfrol bwysig *The British Union Catalogue of Early Music*,

a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1957, y mae copïau ar gael mewn dwy o'r prif lyfrgelloedd, sef yn Llyfrgell Genedlaethol yr Alban yng Nghaeredin, ac yn y Llyfrgell Brydeinig yn Llundain. Ond sawl copi o'r gwaith tybed sydd mewn dwylo preifat?

Wrth gyfeirio at yr *Aria...* yn ei lyfr *Welsh National Music and Dance* yn 1932, dywedodd W. S. Gwynn Williams, Llangollen, mai dim ond rhyw dri chopi oedd ar gael a chadw; roedd un wedi ei ddiogelu yn llyfrgell (y diweddar erbyn hynny) Mr Frank Kidson yn Leeds; un ym meddiant Mr Davidson Cook yn Barnsley, Swydd Efrog, a chopi arall wedi ei ddiogelu yn Llyfrgell Genedlaethol Iwerddon yn Nulyn, meddai. Byddai'n ddiddorol gwybod sut y cafodd W. S. wybodaeth am y copïau hynny o'r gyfrol a oedd yn 1932, neu a fu cyn hynny, ym meddiant dau ffigiwr pur adnabyddus mewn cylchoedd cerddorol a diwylliannol yng ngogledd Lloegr. A oedd ef yn adnabod perchnogion y copïau yn bersonol tybed?

Albanwr oedd Davidson Cook, a gŵr a wasanaethodd am flynyddoedd maith fel rheolwr adran ddillad siop y Co-op yn Barnsley, ac am gyfnod hefyd fel Llywydd Cymdeithas Albanaidd y dref honno. Roedd yn aelod ffyddlon a gweithgar yn Eglwys Annibynnol Regent Street, Barnsley, a chan fod ganddo lu o gysylltiadau llenyddol (beth bynnag am gysylltiadau cerddorol), nid yw'n peri syndod o gwbl fod ganddo yn y tridegau cynnar gopi o'r *Aria...* yn ei feddiant.

Bu Davidson Cook farw yn Burnside, Glasgow, 20 Rhagfyr 1941, a'i gladdu yn Barnsley. Ond er bod rhai pethau a fu yn ei feddiant wedi cael eu diogelu erbyn heddiw yn Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, a hefyd yn Llyfrgelloedd ac Archifau Cyngor Dinas Glasgow - llawysgrifau'n bennaf (gan gynnwys rhai'n gysylltiedig â George Thomson, 1757-1851; y gŵr diwyd hwnnw o Gaeredin a fu wrthi'n brysur yn cyhoeddi casgliadau o alawon Albanaidd, Gwyddelig, a Chymreig rhwng 1793 a 1841, a hefyd gopïau o'i astudiaeth o'r

bardd Albanaidd Robert Burns) - nid oes sôn fod copi o'r *Aria...* ymysg ei bapurau.

Beth ynteu am y copi a fu unwaith ym meddiant Frank Kidson? Yn y 'Portread' o'r gŵr hynod hwnnw a gyhoeddwyd yng Nghylchgrawn y Gymdeithas Ddawns ac Alawon Gwerin Seisnig, cyf. V, Rhif 3 (Rhagfyr 1948), fe ddywedir ei fod wedi ei eni yn Leeds ar 15 Tachwedd 1855, ac iddo ddewis ymgartrefu yn y ddinas honno hyd at ei farw, ar 7 Tachwedd 1926. Mae'n amlwg fod ganddo lyfrgell gerdd gwbl unigryw, gan gynnwys llawer o gopiâu ac o gyfrolau cerdd hynod o brin, ac fe hyderid ar ôl ei farw y byddai un o awdurdodau cyhoeddus ei ddinas enedigol yn prynu ei lyfrgell gerdd helaeth, ac yn ei diogelu fel uned.


Yn anffodus, nid felly y bu pethau; prynwyd rhan helaeth o'r llyfrgell yn 1929 gan awdurdodau Llyfrgell Mitchell yn Glasgow, ac fe wasgarwyd y gweddill hwnt ac yma dros gyfnod o rai blynyddoedd yn dilyn marw Kidson, gyda'r gweddill naill ai yn cael eu cadw am gyfnod ym meddiant rhai o aelodau'r teulu, neu ynteu yn cael eu gwerthu'n breifat i hwn a'r llall.

Nid oes heddiw gopi o'r *Aria...* yng "Nghasgliad Kidson", nac yn yr un adran arall yn Llyfrgell Mitchell yn Glasgow o ran hynny. Nid oes felly ond tri chopi o'r gyfrol y gwyddys i sicrwydd am eu lleoliad, sef y ddau y cyfeirir atynt yn *The British Union Catalogue of Early Music* (1957), a'r copi y gwyddai W. S. Gwynn Williams amdano - trwy brofiad o bosibl - yn Llyfrgell Genedlaethol Iwerddon yn Nulyn.

I ble ynteu yr aeth y copiâu o'r gwaith a fu unwaith ym meddiant yr archgasglwyr Cook a Kidson? Tybed a oes ambell gopi o hyd yn nwylo rhyw gasglwr Albanaidd (neu Gymreig hwyrach!) nad yw'n awyddus i'r gweddill ohonom wybod am ei fodolaeth? Os oes, gwyn fyd y gŵr hwnnw; mae ganddo drysor na ellid rhoi unrhyw bris arno yn y farchnad lyfrau ail-law!

ELFED LEWYS (1934-99)

D. Roy Saer



Cof plentyn yw'r cof cynharaf sy gen i am Elfed, a minnau'n chwarae pêl-droed ar barc yng Nghrymmych lle codwyd Ysgol Gyfun y Preseli rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Yr hyn a adawodd argraff barhaol arnaf, o ystyried ei frwdfrydedd a'i ddycnwch drwy gydol y gêm, oedd y graith ddofn ar ei goes, canlyniad llawdriniaeth reit ddifrifol a gawsai beth amser cyn hynny.

Collasom gysylltiad pan symudodd ei dad, y Parchedig Morley Lewis, a'r teulu i Gefneithin, ac erbyn imi weld Elfed y tro nesaf yr oeddem ein dau ar ganol cyrsfeydd coleg, y naill ym Mangor a'r llall yn Aber. Yr Eisteddfod Ryng-golegol oedd yr achlysur, yng Nghaerdydd neu Abertawe. Unwaith eto parodd y crwt penfelyn imi godi aeliau. A ninnau'n blant yn Sir Benfro, 'chlywswn i erioed

sôn bod iddo unrhyw ogwydd cerddorol, ond, yn wir i chi, pan ddaeth côr Coleg Bangor i'r llwyfan, pwy a ddringodd i ben cadair i'w arwain ond Elfed!

Ym mwynder Maldwyn, o gwmpas canol y chwedegau, y croesodd ein llwybrau wedyn - ac ym myd canu gwerin y tro hwn. Euthum yno, o Sain Ffagan, ar drywydd y carolau Nadolig, a buan y darganfûm fod Elfed eisoes yn rhan o'u traddodiad. Ar y pryd yr oedd yn weinidog ar bum capel yn Llanfyllin a'r cyffiniau, ac nid damwain mai yn un o'r addoldai hynny - capel bach Peniel, ger Dolanog - y recordiodd yr Amgueddfa ei 'phlygain' gyntaf. Elfed, gyda'i osgo hamddenol a'i lais soniarus, a arweiniai'r gwasanaeth, a chyn diwedd y noson yr oedd hefyd ar ei draed fel carolwr.

Yr oedd ef bellach, wrth gwrs, wedi dod yn amlwg fel 'canwr gwerin' ar lwyfannau eisteddfod a Noson Lawen, a phenderfynais fanteisio ar y cyfle i'w recordio yn canu rhai o'r hen ganeuon yr oedd ef ei hun wedi eu casglu. O ran safon sain, hwyrach mai dyma'r recordiad maes mwyaf llwyddiannus imi erioed ei lunio. Y rheswm, yn syml, oedd bod stydi'r gweinidog yn 'Eirianfa', Llanfyllin - diolch i'r tomenni o lyfrau a phapurau o'n cwmpas - yn cynnig cystal amodau acwstig â'r un stiwdio recordio broffesiynol!

Flynnyddoedd yn ddiweddarach cawsom rannu llwyfan ambell dro. Tua diwedd Gorffennaf 1988 yr oeddem yn Ysgol y Berwyn yng Nghyngerdd Canmlwyddiant Nansi, i dalu teyrnged i un a fu'n arwres inni ein dau fel ein gilydd. Meddyliai Elfed y byd ohoni ac nid oedd ball ar ei hanesion amdani, fel am lawer o'r cymeriadau yr ymgartrefodd ef yn eu plith yn y Canolbarth.

Pan ddaeth y Brifwyl yn 1996 i Fro Dinefwr, a gofyn am gyflwyno rhaglen o ganu gwerin bro'r Eisteddfod, at Elfed - ynghyd â Beth Leyshon - y trois am gymorth, a'i gael yn awchus i gymryd rhan. Ef, a'i wynt yn ei ddwrn, oedd yr olaf o'r tîm i gyrraedd y Babell

Lên, ac fe ddiplannodd *wedyn* i rywle i chwilio am ei sgriptiau! Ond, diolch i'r drefn, yr oedd gyda ni eto pan ddaeth y funud i gychwyn, a chyflwynodd ei eitemau gydag asbri heintus a dawn theatrig ysgubol.

O fewn i'r degawd diwethaf, tuag un ar ddeg y nos, derbyniais lawer galwad ffôn ganddo, yn holi ynghylch cân werin, baled neu garol yr oedd am ei chanu yn rhywle neu'i gilydd. Cystal cyfaddef i'm calon suddo pan adwaenwn y llais, gan na fyddai gobaith am weld gwely am awr neu ragor wedyn, ond o fewn munudau yr oedd y sgwrs wedi llwyr afael ynof, a ninnau'n trafod a'r naill mor frwd â'r llall. Ac yn ddieithriad, cyn tewi, rhaid oedd ail-fyw'r atgofion am garolwyr Maldwyn, Dafydd Ellis Pentre, Emrys Llaethbwlch, George a Wat, Sam Banhadla, Fred Jones, a'r lleill. Yr oedd traddodiad y plygeiniau wedi meddiannu Elfed, yn gorff ac enaid.

Gwelais gryn dipyn arno ar draws ei flwyddyn olaf, gan mai ef oedd yn cadeirio'r Is-Bwyllgor Alawon Gwerin ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llanelli, 2000. Yn Ysgol y Strade, gyda'r nos, cafwyd cyfres o sciadau tra difyr. Rhaid imi ddweud na wyddwn ymlaen llaw pa beth i'w ddisgwyl ohono fel Cadeirydd: yn un peth nid oedd Elfed erioed wedi llwyr feistrolï'r cysyniad o dreigl amser! Ond fe'm siomwyd o'r ochr orau, ac i fwy nag un cyfeiriad. Yr oedd wedi gwneud ei waith cartref yn drylwyr, gan bendrymu'n ddwys - ac yn wreiddiol hefyd - am natur a swyddogaeth y gwahanol gystadlaethau canu gwerin. Medrai, wrth gwrs, bwyso ar gefndir amrywiol ac eang yn y maes, gan iddo yn ei dro brofi o'r hen draddodiad byw a'r gyfundrefn eisteddfodol yn gystal ag o'r mudiad canu gwerin 'cyfoes' mewn gwyliau a chlybiau o fewn i Gymru ac mewn gwledydd Celtaidd eraill. Trychineb o'r mwyaf na chafodd fyw i groesawu'r Brifwyl i'w gynefin diweddaraf: yr oedd wedi hen dorchï ei lewys yn barod amdani ac yn fwrlwm o syniadau er ceisio sicrhau ei llwyddiant yn Nhre'r Sosban.

Erbyn hyn cyhoeddwyd sawl teyrnged hael a haeddiannol iddo gan amryw a'i hadwaenai'n dda. Afraid, efallai, ailadrodd bod bwlch enfawr ar ôl y cymeriad unigryw a'r ysbrydolwr tanbaid hwn o Gymro. Fel arweinydd i bobl ifainc cyflawnodd wir orchestion mewn mwy nag un rhanbarth, o ddwyrain Maldwyn i ogledd Penfro.

Fel y nododd ei hen gyfaill R. Alun Evans mor gywir amdano, ddeuddydd wedi ei farw mor ddisymwth fis Ionawr eleni: 'fu Elfed erioed yn enwog am ei brydlondeb, ond fe'n gadawodd yn rhy gynnar o lawer yn y diwedd'.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w frawd Eifion, ynghyd ag aelodau eraill ei deulu.

NODIADAU

NODIADAU

NODIADAU

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.